



Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol

Cyngor Bro Morgannwg

2022-2023

**Gallwch ofyn am y ddogfen hon mewn fformatau eraill.
Er enghraifft: ffont mwy; ar bapur lliw gwahanol.**

**Gallwch ofyn am y ddogfen hon yn Saesneg.
Fe welwch fersiwn Saesneg ar ein gwefan.**

Cynnwys

Cyflwyniad.....	3
Cefndir.....	3
Camau a gymerwyd i nodi a chasglu gwybodaeth berthnasol.....	5
Rhesymau dros beidio â chasglu gwybodaeth berthnasol.....	7
Datganiad ar effeithiolrwydd y camau a gymerwyd i ddiwallu bob un o'n hamcanion cydraddoldeb	7
Amcan Cydraddoldeb Strategol	10
Materion eraill sy'n berthnasol i'r ddyletswydd gyffredinol a'r dyletwyddau penodol.....	40
Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol.....	40
Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb.....	41
Hyfforddiant Cydraddoldeb.....	42
Hyfforddiant Gwrth-Hiliaeth.....	43
Caffael.....	43
Cynllun Hyderus o ran Anabledd.....	44
Pencampwr Amrywiaeth Stonewall.....	45
Wythnos Cydraddoldeb Hiliol.....	46
Statws Arloesi.....	46
Mannau Diogel.....	47
Diwrnod Windrush.....	47
Rhwydweithiau Staff.....	47
Ymwybyddiaeth o'r Menopos.....	50
Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig.....	51
Fforwm Strategaeth 50+ y Fro.....	52
Dadansoddi Data.....	53
Gwasanaethau Hamdden.....	53
Haf o Hwyl.....	57
Hyb Cyn-filwyr LHDTTC+.....	58
Llyfr Diwilliant.....	58
Gwerthuso Swyddi.....	60
Cynllun y Gweithlu.....	60

Llyfr Diwilliant.....	61
Gwybodaeth benedol ynghylch cyflogaeth, gan gannwys gwybodaeth ar hyfforddiant a chyflog.....	62
Adolygiad o Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2020 – 2024.....	69
I gael mwy o wybodaeth.....	71

Cyflwyniad

Mae'n rhaid i ni adrodd ar y cynnydd tuag at gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb a materion cydraddoldeb eraill bob blwyddyn erbyn 31 Mawrth ar gyfer perfformiad yn y flwyddyn flaenorol. Mae'r adroddiad hwn yn dweud wrthy ch am ein gwaith cydraddoldeb rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2023.

Rydym yn gwneud hyn er mwyn cyflawni ein dyletswyddau o dan:

- Deddf Cydraddoldeb 2010;
- Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (ac elwir y 'ddyletswydd gyffredinol'); a
- y dyletswyddau penodol i Gymru.

Rydym yn dweud wrthy ch sut rydym wedi casglu a defnyddio gwybodaeth i:

- ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon;
- datblygu cydraddoldeb cyfle; a
- maethu cysylltiadau da.

Rydym hefyd yn dweud wrthy ch am:

- sut rydym yn dod ymlaen gyda'n hamcanion cydraddoldeb;
- y bobl a gyflogwn; a
- gwaith cydraddoldeb arall.

Cefndir

Rydym wedi disgrifio ein prif waith cydraddoldeb yn ein [Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020 - 2024](#).

Cytunwyd ar y cynllun hwn ym mis Mawrth 2020. Mae'n datblygu a chynyddu ar ein gwaith o'n cynlluniau blaenorol yn 2012 a 2016. Roedd nifer o bethau roedd yn rhaid i ni wneud i ddatblygu'r cynllun cyntaf. Rydym yn rhestru'r prif gamau isod.

- Fe edrychon ni ar faint o wybodaeth yr oedd gennym ar y bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Roedden ni eisiau gwybod pa grwpiau gwarchoddedig oedd yn defnyddio ein gwasanaethau.
- Fe wnaethon ni gwrdd â sefydliadau lleol i weld a oedd meysydd y gallen ni weithio arnyn nhw gyda'n gilydd.
- Fe edrychon ni ar gynlluniau eraill i weld os oedd ganddyn nhw gamau oedd angen bod yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Roedd y rhain yn cynnwys y Cynllun Corfforaethol a'r Cynllun Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.
- Fe drefnon ni ddigwyddiadau i ni gwrdd â sefydliadau eraill sydd â diddordeb yn anghenion y grwpiau gwarchoddedig. Fe aethon ni i'w cyfarfodydd nhw os nad oedden nhw'n gallu dod i'n rhai ni.
- Fe ymgynghoron ni â'r cyhoedd, staff ac undebau masnach.
- Fe siaradon ni â phobl ynglyn â'r hyn y dylen ni ei flaenoriaethu.

Fe wnaeth hyn ein helpu i benderfynu ar ein hamcanion cydraddoldeb. Mae'r rhain yn rhan bwysig o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Buom yn ymgynghori â phobl eto yn 2019 ar gyfer ein Cynllun 2020 - 2024. Defnyddiwyd adborth o ymgysylltu ac ymgynghori i ddatblygu cyfres newydd o amcanion cydraddoldeb sy'n rhoi ffocws mwy cytbwys i ni rhwng canlyniadau mewnol ac allanol. Rydym wedi datblygu'r rhain gan ddefnyddio ymchwil fwy diweddar fel ['Is Wales Fairer? 2018'](#) gan y

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Rydym hefyd wedi creu cysylltiadau â'n hamcanion llesiant corfforaethol.

I sicrhau ein bod yn cyflawni'r amcanion cydraddoldeb, fe wnaethon ni roi camau mewn cynlluniau gwasanaeth. Mae'r cynlluniau hyn yn arwain gwaith pob gwasanaeth (megis Gwasanaethau Tai, Gweladwy a Chymdeithasol). Mae'n rhaid i bob gwasanaeth fonitro cynnydd gyda'r camau hyn ac adrodd ar hyn.

Mae gennym aelod Cabinet dros Ymgysylltu â'r Gymuned, Cydraddoldeb a Gwasanaethau Rheoliadol i arwain ar faterion cydraddoldeb yn ogystal â Hyrwyddwr Cydraddoldeb sy'n aelod etholedig. Mae cyfarwyddwyr yn arwain ar eu gwasanaeth eu hunain.

Rydym yn cael gwybodaeth am y materion a'r canllawiau diweddaraf mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys trwy'r rhwydwaith Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

Camau a gymerwyd i nodi a chasglu gwybodaeth berthnasol

Rydym wedi bod yn casglu gwybodaeth am bwy sy'n defnyddio ein gwasanaethau am beth amser. Mae dull corfforaethol ar gael ar gyfer gwneud hyn fel y gall Gwasanaethau gasglu data ar grwpiau gwarchoddedig mewn ffordd gyson. Rydym yn annog gwasanaethau I wella'r ffordd y maent yn defnyddio'r wybodaeth hon I'w helpu I gynllunio eu gwaith I ddiwallu anghenion pobl yn well.

Yn yr adroddiad eleni, rydym yn adrodd ar y gwasanaethau a ganlyn:

- Anghenion Dysgu Ychwanegol a Llesiant
- Dysgu Oedolion yn y Gymuned
- Gwasanaethau Awtistiaeth
- Budd-daliadau
- Cyfathrebu
- Diogelwch Cymunedol
- Cysylltiadau Cwsmeriaid

- Gwasanaethau Etholiadol
- Datrysiadau Tai
- Adnoddau Dynol
- Dysgu a Sgiliau – Mynediad a Threfniadaeth Ysgolion
- Dysgu a Sgiliau – Cynhwysiant Cymdeithasol a Lles
- Gwasanaethau Hamdden
- Fforwm Strategaeth 50+ Y Fro
- Polisi a Gwella Busnes
- Caffael
- Adfywio a Chynllunio – Polisi Cynllunio
- Gwasanaethau Cofrestru
- Gwasanaethau Cymdeithasol - Oedolion
- Gwasanaethau Cymdeithasol - Gwasanaethau Plant
- Tai – Cefnogi Pobl
- Twristiaeth a Digwyddiadau
- Lles
- Gwasanaethau Ieuenctid

Nid oedd rhai Gwasanaethau'n gallu adrodd gan nad oedd yn bosibl casglu gwybodaeth yn ystod y pandemig oherwydd bod gwasanaethau'n cau.

Pan rydym yn edrych ar y wybodaeth a gasglwyd, rydym yn ystyried:

- y data a gasglwyd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf;
- y systemau a ddefnyddiwyd i gasglu'r data; a
- sut mae gwasanaethau'n defnyddio'r wybodaeth hon i wneud gwelliannau.

Mae hyn yn helpu rheolwyr i nodi bylchau yn y wybodaeth a chymryd camau priodol.

I egluro pam fod angen i reolwyr gasglu'r wybodaeth, rydym yn defnyddio canllawiau gan Stonewall. Gallwch weld y canllawiau yn [Atodiad 1](#). Mae'r ffurflen a ddefnyddiwyd gennym i gasglu gwybodaeth yn [Atodiad 2](#).

Gallwch ddod o hyd i'r wybodaeth am gydraddoldeb y mae Gwasanaethau wedi'i chasglu yn [Atodiad 4](#).

Mae pob gwasanaeth yn dweud sut maen nhw wedi defnyddio'r wybodaeth i ddiwallu tri nod y ddyletswydd gyffredinol.

Mae'r ffurflen a ddefnyddiwn i gasglu gwybodaeth ar gyfer yr adroddiad hwn yn annog gwasanaethau i ddangos sut maent wedi defnyddio'r wybodaeth i wneud gwelliannau i wasanaethau.

Rhesymau dros beidio â chasglu gwybodaeth berthnasol

Mae rhai o'r rhesymau dros beidio â chasglu gwybodaeth yn cynnwys:

- staff yn gofyn i ddefnyddwyr am wybodaeth bersonol wyneb yn wyneb;
- nad oedd defnyddwyr am gwblhau ffurflen arall yn ychwanegol i ffurflen gais hir;
- pryder nad yw arolygon cyfyngedig yn adlewyrchu darlun cywir;
- ddim gyda systemau i gasglu'r wybodaeth.
- coladu'r wybodaeth yn amrhiodol; ac
- argaeledd data

Rydym yn annog rheolwyr i egluro pa mor bwysig yw'r wybodaeth hon wrth wella gwasanaethau.

Datganiad ar effeithiolrwydd y camau a gymerwyd i ddiwallu bob un o'n hamcanion cydraddoldeb

Dyma amlinelliad byr o sut rydym wedi datblygu ein hamcanion gwreiddiol. Gallwch ddod o hyd i fanylion llawn am hyn yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol cyntaf.

- Fe wnaethon ni ddefnyddio ymchwil genedlaethol i'n helpu i ddeall y materion. Er enghraifft, fe edrychom ni ar yr adroddiadau 'A yw Cymru'n Deg', a 'Nid dim ond 6

Ystadegyn Arall'. Y Comisiwn Hawliau Dynol a Chydraddoldeb a gynhyrchodd yr adroddiadau hyn.

- Fe edrychon ni ar p'un a oedd gennym unrhyw wybodaeth yn y Cyngor i roi mwy o fanylion i ni.
- Fe siaradon ni â grwpiau ynghylch lles y grwpiau gwarchoddedig.
- Fe ymgynghoron ni â'n staff ein hunain a'r cyhoedd.
- Fe gytunon ni ar yr amcanion cydraddoldeb y bydden ni'n gweithio arnynt am y 4 blynedd nesaf.

Er mwyn adolygu ein hamcanion, edrychwyd ar ymchwil fwy diweddar fel 'A yw Cymru'n Decach? 2018' gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Fe wnaethon ni ymgysylltu ac ymgynghori hefyd. Yn dilyn hyn, fe gytunon ni ar ein hamcanion cydraddoldeb. Rydym yn dangos pa waith rydym ni wedi'i wneud ar y rhain isod.

Amcan Cydraddoldeb Strategol Un – Gwella sut rydym yn cynnwys, ymgysylltu a chyfathrebu â'r nodweddion gwarchoddedig am ein gwaith a'n penderfyniadau

Amcan Cydraddoldeb Strategol Dau – Parhau i leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn y Cyngor, nodi a oes bwlch cyflog ar gyfer lleiafrifoedd ethnig yn y Cyngor erbyn Mawrth 2021, ac adrodd yn ôl yn flynyddol ar y ddau.

Amcan Cydraddoldeb Strategol Tri – Gwella cyfleoedd cyflogaeth yn y Cyngor ar gyfer grwpiau gwarchoddedig, yn enwedig pobl anabl a phobl ifanc, er mwyn adlewyrchu'n agosach amrywiaeth y boblogaeth leol erbyn Mawrth 2024

Amcan Cydraddoldeb Strategol Pedwar – Parhau i weithio ar ddatblygu amgylchedd gwaith mwy cynhwysol sy'n cefnogi staff o bob cefndir i gyflawni eu potensial, drwy weithredu ystod o gamau gweithredu erbyn Mawrth 2024.

Amcan Cydraddoldeb Strategol Pump – Rhoi cymorth a datblygiad i aelodau etholedig ar faterion cydraddoldeb.

Amcan Cydraddoldeb Strategol Chwech – Datblygu a gweithredu cynlluniau drwy gydol oes y cynllun hwn er mwyn mynd i'r afael â bylchau mewn cyrhaeddiad i blant a phobl ifanc a darparu cymorth i oresgyn y rhwystrau sy'n eu hatal rhag cyrraedd eu llawn botensial.

Amcan Cydraddoldeb Strategol Saith – Datblygu a gweithredu prosesau drwy gydol oes y cynllun hwn i fynd i'r afael â throeddau casineb, trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Amcan Cydraddoldeb Strategol Wyth – Ystyried anghenion tai pobl â nodweddion gwarchoddedig a sut mae ein gwaith yn effeithio arnynt, gan gymryd camau i fynd i'r afael ag unrhyw effeithiau anghymesur ar y grwpiau hyn.

Amcan Cydraddoldeb Strategol Naw – Gweithio mewn partneriaeth i ystyried materion sy'n ymwneud â hygyrchedd trafnidiaeth, yn enwedig ar gyfer pobl anabl a phobl hŷn

Amcan Cydraddoldeb Strategol Deg – Datblygu a gweithredu cynlluniau drwy gydol oes y cynllun hwn i hyrwyddo ein hamgylchedd naturiol ac adeiledig a'n treftadaeth ddiwylliannol, gan gynnwys hygyrchedd, i grwpiau gwarchoddedig.

Amcanion Cydraddoldeb Strategol

Amcan Cydraddoldeb Strategol Un

Gwella sut rydym yn cynnwys, ymgysylltu a chyfathrebu â'r nodweddion gwarchoddedig am ein gwaith a'n penderfyniadau

Canolfan gyswllt - Cyswllt Un Fro

Roedd 171,986 o alwadau ffôn i ganolfan alwadau Cyswllt Un Fro rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2023. Yr amser aros cyfartalog oedd 327 eiliad. Roedd tua 35,000 o negeseuon e-bost hefyd i Cyswllt Un Fro. Datryswyd tua 87% o ymholiadau gwasanaeth cwsmeriaid ar y cyswllt cyntaf.

Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd

Cyhoeddodd y tîm Cyfathrebu ein Harolwg Cyfranogiad y Cyhoedd ym mis Mai 2022 ac maent wedi cymryd camau breision wrth sefydlu rhwydwaith mewnol i gydlynu gwaith cyfranogi y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys cynrychiolwyr o dimau corfforaethol allweddol a gwasanaethau eraill fel y Gwasanaeth Ieuencid.

Mae'r Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd yn amlinellu sefyllfa ymgysylltu ac ymgynghori presennol y Cyngor, yn ogystal â nodi sut y byddwn yn amrywiol yn ein dulliau ymgysylltu i roi cyfle i gynifer o randdeiliaid â phosibl gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau. Rydym eisiau i bobl allu siapio'r hyn rydym yn ei wneud a sut rydym yn ei wneud. Rydym yn parhau i archwilio ffyrdd newydd ac arloesol o gysylltu â'r cyhoedd.

Mae'r Strategaeth hefyd yn sicrhau ein bod yn dod â holl weithgareddau ymgynghori, ymgysylltu a chyfranogi'r Cyngor at ei gilydd i greu un hyb ar-lein hygyrch, gyda'r amcan hirdymor o ddatblygu porth sy'n uno'r holl lwybrau ar gyfer cyfranogi yn y Fro.

Ymgynghoriadau

Rydym wedi ymgysylltu â thrigolion Bro Morgannwg drwy gydol 2022-23 ac wedi cynnal nifer o ymgynghoriadau, gan gynnwys:

- Cynllun Datblygu Lleol
- Strategaeth Rheoli Gwastraff ac Ailgylchu
- Cynigion cynllun Teithio Llesol
- Gwasanaethau Cadwch Gymru'n Daclus
- Cynllun Lles
- Pier Penarth a'r Esplanâd
- Pod Bwyd a Hyb Gwybodaeth Penarth
- Cynigion cyllideb ddrafft

Cafodd ymatebion i'r cynigion cyllideb drafft eu hystyried wrth gyflwyno'r cynigion cyllideb derfynol i'r Cabinet.

Gwnaethom hefyd gynnal digwyddiad i bobl ddod i'r Swyddfeydd Dinesig a daeth nifer o denantiaid a oedd â diddordeb mewn cymryd rhan mewn mwy o weithgareddau ymgysylltu.

Oed-gyfeillgar

Mae Swyddog Bro Oed-gyfeillgar newydd wedi'i recriwtio i ganolbwyntio ar ddatblygu Strategaeth 50+ y Fro a symud ymlaen â'r cais i sicrhau statws Oed-gyfeillgar. Mae'r Swyddog Bro Oed-gyfeillgar wedi cynnal digwyddiadau i barhau i ymgysylltu â phobl hŷn ac aelodau Fforwm 50+ y Fro, gan gynnwys y Bore Coffi Nadolig ym mis Rhagfyr a digwyddiadau 'croeso cynnes' eraill.

Rydym yn gweithio'n galed i gyrraedd demograffeg amrywiol. Er mwyn annog preswylwyr cymwys Bro Morgannwg i gofrestru i bleidleisio, rydym wedi cynnal gweithgareddau amrywiol i sicrhau bod hynny'n agored i bawb.

- Defnyddiwyd ymgyrchoedd y cyfryngau cymdeithasol ar gyfer Diwrnod Ieuenctid Rhyngwladol a'r Wythnos Democratiaeth Leol.
- Trefnwyd pwynt cyswllt ym mhob cartref gofal ym Mro Morgannwg er mwyn sicrhau bod modd i oedolion sy'n agored i niwed gofrestru heb unrhyw rwystrau.

- Rydym yn defnyddio'r taflenni symud wythnosol a ddarperir inni gan yr Adran Ddigartrefedd fel y gallan annog preswylwyr digartref i gofrestru i bleidleisio. Gwnaethom ddechrau defnyddio taleb siopa £10 fel cymhelliant i unrhyw un sy'n ddigartref neu mewn llety gyda chymorth sy'n cofrestru'n llwyddiannus.
- Rydym yn dosbarthu ein holl hallbwn ar y cyfryngau cymdeithasol i'w rannu â Swyddog Adsefydlu Rhanbarthol Bro Morgannwg, sy'n gweithio gyda gwladolion o Syria ac Affganistan sydd wedi ailgartrefu ym Mro Morgannwg.
- Rydym wedi defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a phecyn adnoddau i ysgolion a gafodd ei rannu i'w ddsbarthu ar Google classroom a llwyfannau eraill er mwyn annog pobl ifanc i gofrestru.
- Rydym wedi defnyddio hysbysebion safle bws wedi'u hanelu at bobl ifanc a gwladolion tramor cymwys.
- Cynhaliom gystadleuaeth i annog pobl ifanc rhwng 14-17 i gofrestru.
- Rydym yn cynnal ymgyrch ganfasio flynyddol o dŷ i dŷ er mwyn rhoi cyfle i unrhyw un a allai fod angen cymorth gael cofrestru i bleidleisio.

Yn ogystal, rydym wedi ymgysylltu â grwpiau ac elusennau anabledau i gael adborth ar nodweddion hygyrchedd gwell mewn gorsafoedd pleidleisio ar ôl gweithredu'r Ddeddf Etholiadau. Mae'r Ddeddf hon hefyd yn cyflwyno ffurf adnabod Pleidleiswyr mewn gorsafoedd pleidleisio, felly rydym wedi cynnwys taflen wybodaeth gyda'r holl filiau treth gyngor sy'n cael eu dosbarthu i bob cartref ym Mro Morgannwg. Mae hyn wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol i drigolion hŷn gan mai'r grŵp hwn sydd wedi cyflwyno'r rhan fwyaf o ymholiadau am ffurf adnabod Pleidleiswyr.

Rydym wedi gwneud cais llwyddiannus am gyllid gan Lywodraeth Cymru ar lefel ranbarthol gyda Chaerdydd a Rhondda Cynon Taf i brynu offer fideo a hyfforddiant ar gyfer Swyddogion Ymwybyddiaeth y Cyhoedd. Byddant yn creu fideos Sut i

Bleidleisio ar gyfer grwpiau penodol gan gynnwys pleidleiswyr ifanc, pleidleiswyr ag anabledau, a gwladolion tramor cymwys.

Gwasanaethau Cymdeithasol - Plant a Phobl Ifanc

Gwnaethom ailddatblygu ein harolygon gofalwyr maeth i lunio tri arolwg ar wahân: recriwtio a sefydlu; hyfforddiant a datblygiad; a chymorth. Gwnaethom hefyd greu holiaduron manylach ar gyfer y gwasanaeth mabwysiadu i sicrhau bod cwestiynau'n adlewyrchu'n well brofiadau mabwysiadwyr trwy gydol eu taith fabwysiadu. Rydym yn parhau i ddefnyddio amrywiaeth eang o ddulliau cyfathrebu i sicrhau bod teuluoedd Dechrau'n Deg yn parhau i fod yn wybodus ac yn cymryd rhan. Rydym wedi darparu cyfleoedd i rieni fynychu sesiynau galw heibio mewn lleoliadau meithrin.

Rydym wedi cynnwys pobl ifanc yn y broses recriwtio a chyfweld ar gyfer rheolwyr gweithredol Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc.

Rydym wedi cynnwys pobl ifanc sy'n mynychu Ysgol y Deri yn ein proses ymgysylltu i gofnodi eu profiadau a'u barn ar weithwyr cymdeithasol, gweithgareddau a chymorth proffesiynol. Buom hefyd yn gweithio gyda'u rhieni i archwilio'u barn ar gefnogaeth a chyfathrebu drwy gydol eu hymglymiad. Gwnaethom ymgynghori â gweithwyr proffesiynol dan sylw i gael darlun llawn ac adborth am ein gwasanaethau.

Ar gyfer y Tîm 14+, gwnaethom ehangu'r meysydd cwestiynau i gynnwys lefel o gyfranogiad mewn cynllunio ar gyfer y dyfodol, cyfathrebu a chyswllt gweithwyr cymdeithasol. Buom hefyd yn trafod cyfeirio a chymorth gan wasanaethau eraill sy'n gysylltiedig.

Rydym yn sicrhau bod yr holl gyfathrebu am ymgynghori ac ymgysylltu mewn Saesneg clir ac ar gael mewn fformat hawdd ei ddeall. Mae ymgysylltu â dinasyddion yn bwysig er mwyn sicrhau bod ein gwasanaethau'n briodol, yn effeithiol a'n bod yn gwrando ar ein defnyddwyr gwasanaeth.

Gwasanaethau Cymdeithasol - Gwasanaethau Oedolion

Mae Aelodau o Vale People First ar y panel cyfweld ar gyfer penodi'r holl staff a rheolwyr gofal cymdeithasol yn y tîm Anableddau Dysgu. Mae Vale People First hefyd yn bartneriaid allweddol wrth fonitro'r Contract Byw â Chymorth.

Rydym yn sicrhau bod gennym berson sydd â phrofiad byw ar y panel cyfweld ym mhob penodiad iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau. Rydym wedi datblygu cynnig ar gyfer prosiect ymchwil dan arweiniad cymheiriaid sy'n edrych ar brofiadau pobl o gael eu hasesu o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, gyda'r nod o'i gyflawni yn 2023-24.

Rydym yn ymgysylltu â'n defnyddwyr gwasanaeth i sicrhau bod pob dinesydd yn cael cyfle i ddweud ei ddweud am wella'r gwasanaeth y mae'n ei dderbyn. Rydym yn llenwi ffurflen adborth ym mhob adroddiad ymgynghori. Rydym yn ymgysylltu â defnyddwyr mewn Lleoliadau Oedolion, cyfleoedd dydd New Horizons, gwasanaethau preswyl a Gwasanaeth Adnoddau Cymunedol y Fro. Rydym yn parhau i archwilio a yw dinasyddion yn teimlo bod ganddynt fwy o ymreolaeth a dewis dros benderfyniadau sy'n effeithio ar eu gofal, a bod y dulliau a ddefnyddiwn i ymgysylltu â dinasyddion a'u teuluoedd yn agored, yn hygyrch, yn briodol ac yn rhyngweithiol.

Buom yn gweithio gydag awdurdodau lleol eraill ac yn arwain ar y Polisi Meddyginiaethau Rhanbarthol a gwblhawyd ym mis Medi 2022. O fewn hyn, gwnaethom ystyried y gefnogaeth a roddwn i gynnal annibyniaeth defnyddwyr gwasanaeth.

Cynllun Datblygu Lleol Newydd

Gwahoddwyd trigolion i lenwi ein ffurflen 'Cofrestru Eich Diddordeb' i dderbyn yr wybodaeth ddiweddaraf am y Cynllun Datblygu Lleol Newydd ac ymarferion ymgynghori eraill. Trwy fonitro'r wybodaeth hon, gallwn dynnu sylw at grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i'w targedu'n uniongyrchol er mwyn arallgyfeirio a chryfhau cwmpas ein hymgysylltiad â'r cyhoedd. Disgwylir i'r ffurflen gael ei disodli gan borth ymgynghori ym mis Ebrill 2023.

Rydym hefyd wedi ymgysylltu â thrigolion a rhanddeiliaid ynghylch yr adroddiad cwmpasu Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig a'r Canllaw Cynllunio Atodol, ac ag aelodau o'r gymuned sipsiwn a theithwyr hefyd gyda chydweithwyr Tai.

Amcan Cydraddoldeb Strategol Dau

Parhau i leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn y Cyngor, nodi a oes bwlch cyflog ar gyfer lleiafrifoedd ethnig yn y Cyngor erbyn Mawrth 2021, ac adrodd yn ôl yn flynyddol ar y ddau.

Rydym yn monitro'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau bob chwarter. Gwelwyd gostyngiad sylweddol yn y bwlch canolrifol rhwng cyflogau'r rhywiau, a adroddir gennym wrth Lywodraeth Cymru. Mae'r bwlch cymedrig rhwng cyflogau'r rhywiau wedi aros yn weddol sefydlog dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Rydym yn adrodd ar hyn yn chwarterol drwy ddangosyddion perfformiad ac yn flynyddol drwy'r adroddiad hwn.

Mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau wedi cynyddu rhyw fymryn o gymharu â'r llynedd. Y gwahaniaeth rhwng y gyfradd gymedrig fesul awr i ddynion a menywod yw £1.03, sy'n gynydd o gymharu â £0.71 y llynedd. Y gwahaniaeth rhwng y gyfradd canolrifol fesul awr i ddynion a menywod yw £1.02. Y bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau fel canran o gyflog y dynion yw 6.38% a'r bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau fel canran o gyflog y dynion yw 7.06%, sy'n llai na'r bwlch cyflog canolrifol rhwng y rhywiau yn y DU, 8.3%.

Rydym hefyd yn monitro'r bwlch cyflog ethnigrwydd yn rheolaidd, gan adrodd ar hynny'n rhan o Ddangosyddion Perfformiad Chwarterol y Cyngor. Y gwahaniaeth yn y gyfradd gymedrig fesul awr rhwng Gwyn Prydeinig a Lleiafrifoedd Ethnig yw £0.65. Y bwlch cyflog cymedrig o ran ethnigrwydd yw 4.20%. Y gwahaniaeth yn y bwlch cyflogau canolrifol o ran ethnigrwydd yw £2.66. Y ddau sy'n wedi cynyddu o gymharu â'r llynedd.

Cafodd yr adolygiad cyflogau diwethaf yn 2019, mewn perthynas â cholofn gyflog ddiwygiedig yr NJC effaith gadarnhaol ar y bwlch rhwng cyflogau'r rhywiau. Rydym

yn gwneud gwaith i adolygu'r strwythur cyflogau cyfredol a byddwn unwaith eto'n ystyried bylchau cyflog o safbwynt y rhywiau ac ethnigrwydd. Wrth recriwtio i rolau byddwn yn ystyried lle i osod hysbysebion er mwyn sicrhau ein bod yn cael cynrychiolaeth o blith yr holl grwpiau o ymgeiswyr. Rydym yn parhau i weithio i wella ein proffil amrywiaeth.

Gwnaethom gynyddu cyflogau i'r hyn sy'n cyfateb i'r Cyflog Byw Gwirioneddol a gweithredu dyfarniadau cyflog newydd ar draws y sefydliad. Cytunwyd i gynyddu cyflogau staff ar ddwy radd gyntaf graddfa'r Cyngor i £9.90 yr awr o £9.60 a £9.79 yr awr.

Amcan Cydraddoldeb Strategol Tri

Gwella cyfleoedd cyflogaeth yn y Cyngor ar gyfer grwpiau gwarchoddedig, yn enwedig pobl anabl a phobl ifanc, er mwyn adlewyrchu'n agosach amrywiaeth y boblogaeth leol erbyn Mawrth 2024

Rydym wedi archwilio sut i gyrraedd gwahanol grwpiau wrth hysbysebu swyddi, drwy ddefnyddio gwahanol gyfryngau a delweddau mwy amrywiol. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n rhwydweithiau staff i ystyried sut y gallwn ddenu ystod fwy amrywiol o ymgeiswyr. Rydym yn bwriadu ymgynghori â grwpiau mewnol ac allanol er mwyn nodi rhwystrau i gyflogaeth.

Daeth cydweithwyr o Adnoddau Dynol, Cymunedau am Waith, Gwasanaethau Oedolion, Cydraddoldeb a'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig ynghyd ar gyfer Grŵp Gorchwyl a Gorffen Anabledd i drafod sut gallai'r Cyngor hyrwyddo ei hun yn well i ymgeiswyr ag anableddau yn ogystal â gwella amodau a lefelau cadw staff presennol ag anableddau. Y nod cyffredinol yw bod y Cyngor yn dod yn gyflogwr o ddewis. Yn y grŵp buom yn trafod y broses ymgeisio a chyfweld, a pha newidiadau y gellid eu gwneud i wneud y broses yn haws i ymgeiswyr ag anableddau. Buom hefyd yn trafod ac yn gweithredu newidiadau gwirioneddol megis ychwanegu'r faner Cymunedau am Waith at y dudalen Swyddi ar wefan Bro Morgannwg:



Need help with applying for these jobs?

For employment support and further advice and guidance please contact Communities for Work:

☎ 07860784880 / 07874635237 ✉ c4w-barry@valeofglamorgan.gov.uk

Gwnaethom hyrwyddo Wythnos Genedlaethol Prentisiaid ym mis Chwefror 2023. Cynhaliwyd Digwyddiad Ieuencid yn y Memo gyda'r tîm Cymunedau am Waith i arddangos yr ystod eang o opsiynau cyflogaeth a hyfforddiant i oedolion ifanc ym Mro Morgannwg. Rydym yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd prentisiaeth a phrofiad gwaith trwy gyfleoedd cyfoethogi cymunedau, fel cynllun adeiladu tai y cyngor. Mae hyn wedi helpu i wella sgiliau a pharodrwydd pobl i weithio. Caiff cyfleoedd eu paru â phobl leol drwy'r Tîm Cyfoethogi Cymunedau ac maent wedi'u targedu at unigolion sy'n cymryd rhan mewn mentrau cyflogadwyedd.

Mae'r tîm Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn parhau i fonitro data cydraddoldeb defnyddwyr er mwyn helpu i adnabod unigolion neu grwpiau y gallai fod angen cymorth ychwanegol arnynt, i lywio'r Cynnig Cwricwlwm, ac i gynnig mwy o oriau dysgu a gweithgareddau y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

Eleni rydym wedi cynnal Hyb Cyflogadwyedd a manau croeso cynnes i gefnogi ceiswyr gwaith a phobl y mae'r pandemig a'r argyfwng costau byw wedi effeithio'n andwyol arnynt. Rydym wedi cynnal digwyddiadau cyflogadwyedd ar gyfer grwpiau penodol, gan gynnwys pobl ifanc, pobl dros 50 oed, a siaradwyr Cymraeg. Rydym yn parhau i gynnal ein grŵp Men's Shed a grwpiau siarad cymdeithasol ar gyfer dysgwyr Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill.

Mae Cymunedau am Waith wedi ymrwymo i helpu i agor cyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth i ddinasyddion sy'n mynychu'r Gwasanaeth Dydd, yn dilyn ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth.

Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth â chydweithwyr Atal a Phartneriaeth sydd wedi arwain at sicrhau cyllid drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin ar gyfer tri mentor cyflogaeth â chymorth i weithio gyda phobl â phroblemau iechyd meddwl,

anableddau corfforol a/neu ddysgu, anghenion synhwyrdd, ac awtistiaeth i ddatblygu sgiliau a hyder i sicrhau cyflogaeth wirfoddol a chyflogedig.

Amcan Cydraddoldeb Strategol Pedwar

Parhau i weithio ar ddatblygu amgylchedd gwaith mwy cynhwysol sy'n cefnogi staff o bob cefndir i gyflawni eu potensial, drwy weithredu ystod o gamau gweithredu erbyn Mawrth 2024

Rydym yn parhau â'n gwaith fel Hyrwyddwr Amrywiaeth Stonewall, drwy ddefnyddio Mynegai Cydraddoldeb Gweithlu Stonewall i lywio ein gwaith.

Rydym yn parhau i fonitro a gwerthuso gwelliannau er mwyn cynnwys ein gweithlu LHDTTC+ ymhellach. Gwnaethom gymryd rhan ym Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall. Dyfarnwyd gwobr arian inni ar gyfer 2022/23 a safle 126 o 400, a sgôr o 60.5 allan o 200.

Mae gennym ddau rwydwaith staff sefydledig yng Nghyngor Bro Morgannwg: GLAM ac Amrywiol. Rydym yn gweithio ar rwydwaith staff Anabledd newydd, ac rydym hefyd wedi dechrau meddwl am grŵp pobl hŷn.

GLAM yw ein rhwydwaith staff ar gyfer aelodau a chynghreiriaid LHDTTC+; Amrywiol yw ein rhwydwaith ar gyfer pobl a chynghreiriaid Du, Asiaidd, lleiafrifoedd ethnig a hil; a bydd y rhwydwaith Anabledd ar gyfer staff ag anableddau, staff â theulu neu ffrindiau ag anableddau, a chynghreiriaid. Mae mwy o wybodaeth am weithgareddau a gweithredoedd y rhwydweithiau drwy'r cyfnod hwn ar gael yn [ddiweddarach yn yr adroddiad](#).

Mae'r rhwydweithiau staff yn darparu cefnogaeth a gwybodaeth i aelodau, yn rhannu gwybodaeth a phrofiadau, yn ymgynghori ar bolisiau'r Cyngor ac yn helpu i lywio hyfforddiant. Mae'r rhwydweithiau'n bwysig wrth ddangos sut mae'r Cyngor yn cyflawni ei werthoedd a'i ddiwylliant corfforaethol fel cyflogwr cynhwysol o ddewis.

Trwy gydol y flwyddyn rydym yn cyhoeddi erthyglau ar Staffnet i nodi gwahanol ddiwrnodau a digwyddiadau ymwybyddiaeth. Mae'r rhain yn cynnwys Wythnos Cynhwysiant Pobl Ddu, Wythnos Genedlaethol Cynhwysiant, Wythnos Cydraddoldeb Hiliol, Mis Pride, Mis Hanes Pobl Ddu, a diwrnodau penodol fel y Diwrnod Rhyngwladol yn erbyn Homoffobia, Trawsffobia a Deuffobia, Diwrnod Windrush, Diwrnod Gwelededd Trawsryweddol, a Diwrnod Ymwybyddiaeth Anneuaidd. Drwy rannu gwybodaeth am y diwrnodau a'r digwyddiadau ymwybyddiaeth hyn gallwn godi ymwybyddiaeth o wahanol grwpiau a lleiafrifoedd, gan gyfrannu at amgylchedd gwaith mwy cynhwysol. Yn ogystal, rydym yn sicrhau bod cynnwys perthnasol sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb ar iDev yn gyfredol ac yn hyrwyddo'r neges gywir.

O ganlyniad i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Anabledd dan arweiniad AD, rydym wedi ychwanegu'r faner Cymunedau am Waith at y dudalen Swyddi ar wefan Bro Morgannwg. Rydym hefyd wedi ailgofrestru ar gyfer y cynllun Hyderus o ran Anabledd. Mae'r camau hyn yn dangos sut rydym yn ymdrechu i fod yn lle gwaith mwy cynhwysol a chefnogol.

Rydym yn parhau i roi blaenoriaeth i les staff. Rydym wedi parhau i hybu iechyd a llesiant y staff drwy amrywiaeth o weithgareddau a mentrau, yn amrywio rhwng sesiynau ymarfer o bell a chyrsgiau ar-lein. Caiff hyrwyddwyr llesiant eu cefnogi i hyrwyddo llesiant a ffyrdd iach o fyw.

Rydym wedi agor gardd les i staff yn y Swyddfeydd Dinesig sy'n darparu lle y tu allan i gael egwyl. Cwblhaodd dros 1300 o weithwyr yr arolwg lles staff, sy'n fwy nag arolygon blaenorol.

Cytunwyd ar arweinyddiaeth wleidyddol newydd y Cyngor ym mis Mai 2022 a ffurfiwyd y Cabinet newydd gyda phum menyw a thri dyn. Dywedodd yr Arweinydd fod y Cabinet newydd yn "adlewyrchu fy nymuniad am well cydbwysedd rhwng y rhywiau ac amrywiaeth nid yn unig mewn gwleidyddiaeth ond ym mhob swydd â phŵer." Mae hyn hefyd yn adlewyrchu'r cydbwysedd rhwng y rhywiau yng ngweithlu'r Cyngor.

Derbyniodd gweithwyr cymdeithasol yn Nhîm Iechyd Meddwl Bro Morgannwg hyfforddiant cyd-gynhyrchu a ddatblygwyd ar y cyd â Gweithredu Caerdydd a'r Fro ar Iechyd Meddwl ac a ddarperir gan berson â phrofiad bywyd. Yn dilyn yr hyfforddiant hwn, gwnaethom ddatblygu pecyn cymorth arfer da i staff ei ddefnyddio.

Mynychodd staff a rheolwyr gwasanaethau gan gynnwys Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Amgylchedd weithdy rhyngweithiol am ymwybyddiaeth o hil a ddarparwyd gan No Boundaries.

Amcan Cydraddoldeb Strategol Pump

Rhoi cymorth a datblygiad i aelodau etholedig ar faterion cydraddoldeb.

Mae gan aelodau fynediad at IDev lle gallant ddod o hyd i ystod o fodiwlau e-ddysgu ar faterion cydraddoldeb. Gallant hefyd gael fynediad at sesiynau a chyflwyniadau blaenorol drwy MemberNet. Mae gwybodaeth wedi cael ei darparu yn ystod y flwyddyn yn benodol am ymwybyddiaeth hil.

Rydym yn parhau i adolygu hyfforddiant a datblygiad yr Aelodau ac yn trefnu i ddiwallu anghenion a nodwyd. Mae hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth wedi bod yn orfodol i bob aelod o 2022 gyda sesiwn gychwynnol a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2022 fel rhan o'r rhaglen Sefydlu Aelodau newydd. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys gwybodaeth gan y rhwydweithiau staff, GLAM ac Amrywiol. Mynychodd aelodau benywaidd Weithdy Dinasyddion Digidol gyda Glitch ym mis Hydref 2022. Cynhaliwyd sesiynau gan Red Shiny Apple am Gydraddoldeb wrth Wneud Penderfyniadau a Chraffu ar gyfer aelodau ym mis Hydref 2022 a mis Ionawr 2023.

Mae'r cyflwyniadau, y dolenni a'r adnoddau o'r holl hyfforddiant ar gael i aelodau ar unrhyw adeg drwy'r Membernet.

Amcan Cydraddoldeb Strategol Chwech

Datblygu a gweithredu cynlluniau drwy gydol oes y cynllun hwn er mwyn mynd i'r afael â bylchau mewn cyrhaeddiad i blant a phobl ifanc a darparu cymorth i oresgyn y rhwystrau sy'n eu hatal rhag cyrraedd eu llawn botensial.

Tîm Grwpiau Agored i Niwed

Mae'r Tîm Grwpiau Agored i Niwed yn parhau i gefnogi plant a phobl ifanc mewn addysg ddewisol yn y cartref. Rydym hefyd yn darparu cefnogaeth i ddisgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol yn ogystal â chefnogaeth uwch i ddisgyblion yn Rhaglen Ailsefydlu Syria (RhAS) a lleiafrifoedd ethnig eraill.

Mae'r Tîm Grwpiau Agored i Niwed yn gweithredu ochr yn ochr ag ysgolion a Gyrfa Cymru i sicrhau bod pob disgybl yn RhAS yn cael mynediad at addysg a chymorth gyrfaoedd. Rydym hefyd yn cynorthwyo pobl ifanc yn RhAS gyda'r angen i gyflymu eu dysgu, cael mynediad at hyfforddiant a chael gwaith. Ein nod yw codi cyflawniad pob disgybl o ba bynnag cefndir.

Ym mis Gorffennaf 2022, gwnaethom lansio Gweithdai Addysg i Rieni i helpu rhieni o Syria ac Afghanistan i gymryd mwy o ran yn addysg eu plant. Cyflwynodd y cyfieithwyr a'r Cynorthwywyr Cymorth Dysgu amlieithog y gweithdai yn ieithoedd cartref y rhieni. Roedd y gweithdy cyntaf yn llwyddiant ysgubol oherwydd dywedodd rhieni eu bod yn teimlo eu bod wedi'u cynnwys ac yn cymryd rhan mewn dysgu sut i gefnogi dysgu eu plant mewn ysgolion yng Nghymru. Gofynnodd y rhieni i'r Gweithdai Addysg gael eu cynnal bob tymor. Ym mis Gorffennaf 2022, ail-aseswyd yr holl ddisgyblion targed yn RhAS a chanfod bod y disgyblion wedi gwneud cynnydd sylweddol.

Mae gan draean o'r plant yn RhAS angen dysgu ychwanegol (ADY) ac mae angen cymorth targedig ar ychydig o dan hanner y disgyblion. Cyflawnodd plant ym Mlwyddyn 11 TGAU yn unol â'u galluoedd yn Haf 2022 ac mae un arall wedi dechrau yn y brifysgol. Mae'r rhain yn dangos llwyddiannau sylweddol i'r gefnogaeth a ddarperir gan y tîm.

Gwasanaethau Cymdeithasol – Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc

Caiff Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc ei ddarparu yn ôl cymhwysedd yr unigolyn i gael gofal a chymorth, gan gynnwys ei nodweddion penodol. O'r herwydd, mae'n bwysig ein bod yn monitro gwybodaeth cydraddoldeb yn gywir ac yn effeithiol. Rydym wedi dechrau llunio adroddiadau wythnosol i reolwyr fonitro a gwella'r drefn cofnodi gwybodaeth cydraddoldeb ar ein system gofnodi System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru.

Rydym yn casglu data ar yr holl nodweddion gwarchoddedig fel rhan o'n rhaglen ymgysylltu â dinasyddion ac yn edrych ar sut y gallem gynnwys y data hwn yn y system gofnodi. Rydym yn defnyddio data i lywio a chynorthwyo darparu gwasanaethau yn ogystal ag adrodd mewn ffurflenni statudol blynyddol i Lywodraeth Cymru.

Mae'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr gwasanaeth yn wyn, Prydeinig a Saesneg eu hiaith. Mae ychydig yn fwy o fechgyn na merched yn cael eu cofrestru. Mae gostyngiad amlwg yn nifer y plant nad ydynt yn cofnodi eu hethnigrwydd a'u crefydd eleni, sy'n ganlyniad uniongyrchol i'r monitro wythnosol a gyflwynwyd eleni.

Rydym wedi gweithio gyda darpariaeth canolfannau hamdden lleol i alluogi pobl ifanc i gael mwy o fynediad at weithgareddau corfforol ar gyfradd is a chymorth i fynychu'r gampfa. Mae hyn yn bryder parhaus ac mae mwy o ymgysylltu wedi'i gynllunio ar gyfer 2023/24.

Rydym yn parhau i ddarparu'r gwasanaethau canlynol:

- Llinell Gyngor Teuluoedd yn Gyntaf
- Tîm o Amgylch y Teulu (TAT)
- Gwasanaeth Rhianta'r Fro
- Dechrau'n Deg
- Gwasanaethau maethu a mabwysiadu

Rydym yn sicrhau bod ein dogfennau ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Rydym yn darparu cyfieithwyr ar gyfer ieithoedd eraill lle bo angen. Rydym hefyd yn gweithio gyda rhieni ag anableddau, gan wneud addasiadau angenrheidiol i'n harferion lle bo angen.

Mynychodd holl aelodau'r Uwch Dîm Rheoli Gwasanaethau Cymdeithasol weithdy rhyngweithiol Ymwybyddiaeth o Hil a gynhaliwyd gan No Boundaries.

Gwasanaeth Ieuenctid

Rydym yn darparu cyfleoedd addysgol cymdeithasol ac anffurfiol trwy ddarpariaeth mynediad agored i bob person ifanc rhwng 11 a 25 oed. Mae rhan fwyaf ein haelodau rhwng 11 ac 16 oed. Mae nifer aelodau'r grŵp oedran hwn wedi cynyddu yn unol â mwy o weithgaredd gyda phlant Blwyddyn 7 ac 8 yn dilyn y pandemig. Bu gostyngiad yn nifer yr aelodau dros 17 oed gan y bu gostyngiad yn y ddarpariaeth NEET ôl-16.

Rydym yn llunio dogfennau addas i bobl ifanc fel canlyniadau ymgynghori ac adborth ac adroddiadau blynyddol. Rydym yn dosbarthu'r wybodaeth hon ar bapur a thrwy gyfryngau digidol.

Mae gennym uned cyfranogiad gweithredol sy'n cefnogi nifer o fforymau ac mae'r cabinet ieuenctid ledled y Fro ac yn ein cefnogi i ymgynghori â grwpiau a ddiogelir a'r bobl ifanc anodd eu cyrraedd.

Rydym yn datblygu ffurflen aelodaeth newydd i wella sut rydym yn casglu data cydraddoldeb. Rydym wedi cynyddu cyfleoedd i gael gafael ar ddarpariaeth Gymraeg i siaradwyr a dysgwyr drwy weithio gyda'r Urdd. Rydym yn parhau i chwilio am ragor o gyfleoedd i ddatblygu'r gwaith hwn. Gwnaethom gydnabod diffyg aelodau hŷn ac yn gweithio ar gyfleoedd penodol ar gyfer y grŵp hwn. Rydym yn cydnabod y gallem wneud mwy i ymgysylltu â grwpiau lleiafrifoedd ethnig ac rydym yn defnyddio grant gan Lywodraeth Cymru i ymchwilio i'r hyn y dylai hyn ei gynnwys. Bydd y grant hwn hefyd yn ceisio treialu prosiect anabled.

Rydym yn cynnal grŵp ieuenctid LHDTTC+, FI YW FI. Mae hwn yn glwb ieuenctid wedi'i dargedu ar gyfer pobl ifanc 13 i 18 oed sy'n rhan o'r gymuned LHDTTC+ neu'r cynghreiriaid. Mae'r grŵp yn cyfarfod yn wythnosol yn Y Barri ac mae ganddo tua 15 aelod o bob rhan o Fro Morgannwg. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae FI YW FI wedi cael sawl siaradwr gwadd gan gynnwys y Tîm Allgymorth Iechyd Rhywiol a

siaradodd â'r bobl ifanc am berthnasoedd iach a rhyw diogel; a Mike Mainwaring o dîm Plant yng Nghymru a gyflwynodd hyfforddiant LHDTC+ i'r grŵp.



Gofynnodd aelodau FI YW FI am fathodynnau rhagenw hefyd. Mae aelodau a staff ledled Gwasanaeth Ieuenctid y Fro bellach yn gwisgo'r bathodynnau hyn. Cawsom beiriant gwneud bathodynnau fel y gellir gwneud bathodynnau rhagenw a baner mewn digwyddiadau a sesiynau'r Gwasanaeth Ieuenctid.

Rydym hefyd yn cynnal clwb ieuenctid 18+ anghenion ychwanegol, Youthy 18+. Ar hyn o bryd, mae tua deg o bobl ifanc rhwng 18 a 25 oed yn aelodau. Mae gan lawer o'n haelodau ystod o anghenion dysgu ychwanegol (ADY) o fân awtistiaeth i ADY mwy dwys. Gall pobl ifanc fynychu gyda'u gweithwyr cymorth eu hunain os oes angen. Nod y grŵp hwn yw darparu lle diogel i bobl ifanc hŷn gwrdd â'u ffrindiau, gweithio ar sgiliau bywyd fel coginio, ceisiadau coleg, CVs, cyfleoedd cyflogaeth, a chefnogi cymdeithasu.

Mae aelodau wedi gweithio ar amrywiaeth o brosiectau gan gynnwys mynd i'r afael â'r argyfwng costau byw, dod o hyd i ddewisiadau amgen iachach a rhatach i fwyd cyflym, rheoli arian a chyllidebu.

Rydym hefyd yn darparu gweithgareddau ieuenctid anffurfiol Cymraeg. Rydym yn ariannu gweithgareddau dawns anabled a Teenscheme drwy ein cyllid grant gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn hefyd yn cefnogi datblygiad parhaus prosiectau gyda'r grŵp hwn. Mae ein timau'n gweithio gydag unigolion i asesu eu hanghenion a gweithio ar weithgareddau pwrpasol.

Pecyn Cymorth Trawsryweddol i Ysgolion

Rydym wedi dechrau adolygu ein Pecyn Cymorth Trawsryweddol a'n Canllawiau i Ysgolion. Gwnaethom ymgynghori ar hyn ym mis Chwefror 2023 gyda gwahanol randdeiliaid fel llywodraethwyr, penaethiaid, staff ysgolion, rhieni, disgyblion a grwpiau cymunedol trwy brosiect Cymryd Rhan y Fro. Rhoddodd aelodau'r grŵp ieuencid FI YW FI adborth hefyd. Mae'r pecyn cymorth yn rhan o'r gyfres o ddogfennau canllaw a ddarparwn i ysgolion ar ystod o faterion gan gynnwys bwlio, diogelu a nodweddion gwarchoddedig.

Prydau ysgol

O fis Medi 2022 gwnaethom gynnig Prydau Ysgol am Ddim i bob plentyn dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2. Cynigiwyd hyn i bob plentyn ysgol gynradd (dosbath Derbyn, a Blynyddoedd 1 i 6) o fis Ebrill 2023. Roedd y ddau ddyddiad cyn uchelgeisiau Llywodraeth Cymru.

Mae'r broses gyflwyno barhaus yn sicrhau y bydd cymaint â phosibl o blant yn mwynhau pryd iach o fwyd am ddim yn yr ysgol yn ogystal â chyfrannu at gymorth costau byw.

Grantiau Datblygu Disgyblion

Mae ysgolion wedi bod yn rhagweithiol wrth annog rhieni cymwys i wneud cais am Brydau Ysgol am Ddim a Grantiau Datblygu Disgyblion, ac nid ydym wedi gweld gostyngiad yn nifer y ceisiadau yn dilyn hawl i brydau ysgol am ddim cyffredinol. Mewn gwirionedd, rydym wedi derbyn mwy o geisiadau am Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer y dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 rhwng mis Medi 2022 a mis Mawrth 2023 na gwerth blwyddyn gyfan o geisiadau rhwng mis Medi 2021 a mis Awst 2022, 699 o'i gymharu ag 860. Gall hyn adlewyrchu'r pwysau ariannol uwch ar deuluoedd a rhieni nag mewn blynyddoedd blaenorol. Rydym hefyd wedi gwahodd teuluoedd i hawlio, gan nodi achosion drwy adroddiadau yn seiliedig ar incwm cymwys.

Ar gyfer y cyfnod rhwng mis Medi 2022 a mis Mawrth 2023, gwnaethom ddyfarnu 3345 o Grantiau Datblygu Disgyblion (a elwir hefyd yn Daliadau Hanfodion Ysgol), yr oedd 69 ohonynt ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal. Mae cyfanswm o £774,750 wedi'i dalu. Mae hyn yn uwch na'r blynyddoedd blaenorol gan fod Llywodraeth Cymru wedi

darparu £100 ychwanegol ar gyfer pob blwyddyn ysgol gymhwyso, felly £300 i blant ym Mlwyddyn 7 a £225 ar gyfer y dosbarth Derbyn i Flwyddyn 11. Bydd y symiau yn dychwelyd i £200 a £125 yn y drefn honno o fis Medi 2023.

Bwlio

Mae'r tîm Anghenion Dysgu Ychwanegol a Lles yn dadansoddi data bwlio ysgolion i nodi tueddiadau ac i adolygu strategaethau gwrth-fwlio i fynd i'r afael â chanfyddiadau. Ym mis Ionawr 2021, darparwyd Polisi Gwrth-fwlio enghreifftiol i bob ysgol ym Mro Morgannwg. Lluniwyd y Polisi Gwrth-fwlio enghreifftiol i sicrhau rhyngweithrededd â chanllawiau 'Hawliau, Parch, Cydraddoldeb' Llywodraeth Cymru 2019.

Yn ogystal ag ystyried ymddygiad 'angharedig' ar ffurf bwlio traddodiadol, mae'r polisi hefyd yn rhoi pwyslais sylweddol ar ffocws pob math o fwlio, gan gynnwys digwyddiadau sy'n ymwneud â rhagfarn untro sy'n canolbwyntio ar nodweddion gwarchoddedig.

Ar hyn o bryd, rydym yn aros i gyhoeddi cynllun gweithredu Aflonyddu Rhywiol gan Gymheiriaid Llywodraeth Cymru ym mis Medi 2023 a fydd yn gosod camau clir ar waith ar gyfer ysgolion, Awdurdodau Lleol, a Llywodraeth Cymru wrth fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol gan gymheiriaid ynghyd â chasineb at fenywod, trawsffobia, homoffobia, a deuffobia.

Yng Ngwanwyn 2022, gwnaethom ddatblygu 'Canllaw' ar gyfer ysgolion i helpu i fynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol gan gymheiriaid mewn lleoliadau ysgolion uwchradd. Roedd hyn mewn ymateb i gynllun gweithredu cychwynnol Llywodraeth Cymru. Dosbarthwyd y canllaw i bob ysgol er mwyn:

- Darparu arweiniad manwl ar gyfer dull ysgol o godi ymwybyddiaeth, cefnogi dioddefwyr, a herio dysgwyr sy'n ymddwyn yn wahaniaethol a rhagfarnllyd
- Gwella hyder staff ysgolion a Chyfarwyddiaeth wrth gydnabod, cefnogi a mynd i'r afael â'r rhai y mae ymddygiad gwahaniaethol yn effeithio arnynt.

Mae dadansoddiad o ddata bwlio ysgolion a gasglwyd gan system TGCh bwrpasol 'Fy Mhryder' a ddefnyddir gan ysgolion y Fro rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023 yn dangos y penawdau canlynol:

- Cofnodwyd 86 o achosion o fwlio ar draws yr holl ysgolion.
- Y categori bwlio lle cofnodwyd y lefelau uchaf oedd 'bwlio sy'n canolbwyntio ar ymddangosiad' (23 o gofnodion), ac yna bwlio Homoffobig/Deuffobig/Trawsffobig (18 o gofnodion).
- Cofnodwyd cyfanswm o 100 o 'ddigwyddiadau rhagfarn untro', y cofnod uchaf ar gyfer categori penodol oedd y cofnod ar gyfer 'hil', gyda 58 o ddigwyddiadau wedi'u cofnodi.

Ar hyn o bryd, nid ydym yn gallu archwilio unrhyw ddata cymaradwy ar sail blwyddyn academaidd/fesul tymor, gan na fu'r dull newydd o adrodd ond yn weithredol ers mis Tachwedd 2021. Dylai hyn fod yn bosibl yng nghyfnod adrodd 2023/24.

Rydym yn ymgysylltu'n frwd â darparwyr trydydd sector, e.e. No Boundaries a Barnardo's, er mwyn iddynt helpu ysgolion i godi ymwybyddiaeth ynghylch hiliaeth a mathau eraill o ragfarn.

Mae Bullies Out wedi cyflwyno gweithdai a rhaglenni hyfforddi i ysgolion ym Mro Morgannwg. Mae hyn yn parhau i fod yn bartneriaeth lwyddiannus iawn. Yn ystod tymor yr haf 2022, buom yn gweithio gyda Barnardo's i ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth ar ymddygiad rhywiol niweidiol i staff o ysgolion uwchradd a'r Gwasanaeth Ieuencid.

Cynhwysiant Cymdeithasol a Lles

Rydym yn parhau i fonitro cyfraddau presenoldeb mewn cysylltiad â nodweddion gwarchoddedig, rhai fesul achos, i ddadansoddi a oes gan y disgyblion hyn gyfraddau presenoldeb is na'r disgwyl.

Rydym hefyd yn monitro'r cyfraddau presenoldeb i ddisgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim gan fod hyn yn arwydd o anfantais economaidd-gymdeithasol a hyrwyddo cyfle cyfartal.

Rydym yn dadansoddi ac yn monitro'r data hwn ar lefel awdurdod lleol, lefel ysgol ac achosion unigol. Os byddwn yn nodi materion mewn ysgolion penodol ynghylch cynhwysiant a nodweddion gwarchodedig, rydym yn gweithredu cefnogaeth wedi'i thargedu. Rydym yn darparu mesurau cymorth pwrpasol fesul achos. Rydym yn ymgymryd â gwaith amlasiantaethol i sicrhau bod ysgolion yn derbyn y gefnogaeth briodol a'u cyfeirio i asiantaethau a gwasanaethau proffesiynol eraill.

Cawn ein hyfforddi gan y Prosiect Cydnerthedd i gefnogi anghenion iechyd meddwl a chynnig cymorth i ddysgwyr sy'n pontio neu sy'n wynebu anawsterau sy'n gysylltiedig â'u cyfeiriadedd rhywiol. Rydym yn parhau i rannu adnoddau gan Mermaids a Stonewall i gefnogi dysgwyr a'u teuluoedd gyda'r wybodaeth hon.

Rydym wedi defnyddio grant Addysg Ddewisol yn y Cartref (ADdC) Llywodraeth Cymru i gefnogi dysgwyr ADdC sydd yn agored i niwed a/neu sydd â nodweddion gwarchodedig allu cyrchu cefnogaeth a gwasanaethau.

Rydym wedi hyrwyddo hyfforddiant sy'n ymwneud â materion cynhwysiant ac eithrio o ran gofal bugeiliol mewn ysgolion. Rydym wedi creu Swyddogion Ymgysylltu Cyswllt (SYC) newydd o fis Medi 2022 i gysylltu ysgolion â chymorth a chefnogaeth i deuluoedd agored i niwed drwy feddygfeydd SYC bob pythefnos. Rydym eisoes yn nodi meysydd angen nad ydynt efallai wedi dod i sylw'r tîm cynhwysiant o'r blaen. Mae'r dull hwn yn cynnwys canolbwyntio ar ddeall a diwallu anghenion penodol dysgwyr sy'n agored i niwed yn hytrach na mabwysiadu dull o gosbi wrth fynd i'r afael â digwyddiadau.

Rydym hefyd wedi creu ac yn cyflwyno cynnig hyfforddiant newydd sy'n nodi dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â mesurau cosbi, gan ymgorffori'r defnydd o ddulliau osgoi ysgolion yn seiliedig ar emosiwn i wreiddio a galluogi ffordd o ymdrin â'r cynnydd mewn dysgwyr sydd â phroblemau ac anghenion gorbryderus a ffobig. Mae hyn yn cyd-fynd â hyfforddiant diwygiedig a diwedaredig ar gynlluniau cymorth

Bugeiliol. Mae gan yr hyfforddiant gwahardd ffocws gwell ar ddeddf cydraddoldeb y sector cyhoeddus a nodweddion gwarchoddedig.

Dechreuodd y Tîm Grwpiau Agored i Niwed brosiect ymchwil gyda chwe ysgol i gynhyrchu astudiaethau achos ar sut y gall ysgolion fod yn weithredol wrth-hiliol a chyfrannu at Gynllun Gweithredu Gwrth-hiliol y Cyngor. Gwnaethom ddatblygu porth i olrhain cyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal. Mae'r porth hwn yn ein cefnogi i nodi'r bylchau sydd ar y gweill ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Gwnaethom ddatblygu ysgol rithwir i olrhain presenoldeb disgyblion sy'n ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

Gwnaethom ddarparu templed i bob ysgol i ddiweddarau eu Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) sy'n cyd-fynd â Chynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor.

Ysgol y Deri

Rydym wedi gweithio gydag Ysgol y Deri ar brosiect Bocs Bwyd. Bydd y disgyblion yn cael profiad gwaith uniongyrchol. Mae uned ffreutur symudol wedi ei rhoi gan Morgan Sindall i alluogi'r swyddogaeth hon i gael ei chynnal ar ôl cwblhau'r prosiect. Mae Bocs Bwyd ac Ysgol Y Deri hefyd yn gweithio gyda chwmni arlwyio Big Fresh i ddatblygu cyfleoedd gwaith â thâl i bobl ifanc.

Cyfleoedd

Fel rhan o'r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, rydym wedi ymrwymo i ddarparu cyfleusterau addysgol o safon i ddisgyblion ysgol a'r gymuned ehangach. Yn ystod gwyliau haf 2022, gwnaethom ddarparu caeau 4G yn Ysgol Whitmore am ddim i Academi Bêl-droed Joe Ledley a gynigiodd gyfraddau gostyngol i'w gwersylloedd pêl-droed haf. Gwnaethom hefyd ddarparu cinio a byrbrydau am ddim a oedd yn galluogi llawer o blant i fynychu a allai gael eu gwahardd fel arall.

Cymerodd 420 o ddisgyblion ran mewn pum ysgol yn y Barri ran yn 'Diwygio Diwrnod Ysgol' Llywodraeth Cymru. Datblygodd yr ysgolion amserlen ar y cyd o ddiwrnod ysgol estynedig i gynnwys cyfleoedd dysgu a lles i ddisgyblion agored i niwed y tu allan i oriau ysgol. Rydym wedi gwneud cynnydd prosiectau lleol penodol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau fel prosiect Diwrnod Egniol y Tu Hwnt i'r Ysgol yn Ysgol Uwchradd

Pencoedtre, sy'n cefnogi disgyblion i gael mynediad at ddarpariaeth chwaraeon ôl-ysgol am ddim ochr yn ochr â darparu bwyd.

Rydym wedi creu lleoedd i brentisiaid ar draws y Cyngor sydd wedi darparu cyfleoedd cyflogaeth i bobl ifanc 16 i 24 oed mewn Gwasanaethau Cymdogaeth a Gwasanaethau Tai ac Adeiladau. Rydym hefyd wedi cydweithio ag Academi'r Fro a chynlluniau Cymunedau am Waith.

Gwasanaeth Troseddau Ieuentid

Cafodd Gwasanaeth Troseddau Ieuentid (GTI) Bro Morgannwg sgôr gyffredinol 'da' yn dilyn arolygiad gan Arolygiaeth Prawf Ei Fawrhydi. Canmolwyd staff am eu gwybodaeth a'u darpariaeth gyffredinol o waith sy'n helpu i atal plant a phobl ifanc rhag troseddu. Canfuwyd bod y gwasanaeth wedi cyflawni'r cydbwysedd rhwng helpu plant a diogelu'r cyhoedd. Mae'r GTI yn cynnig amrywiaeth o gymorth i atal troseddu, cwnsela cyffuriau, galluogi plant i fynd i'r afael ag unrhyw niwed a achosir i ddioddefwyr neu'r gymuned ehangach drwy ymwybyddiaeth dioddefwyr, a chynorthwyo rhieni i hyrwyddo ymddygiad a chanlyniadau cadarnhaol.

Amcan Cydraddoldeb Strategol Saith

Datblygu a gweithredu prosesau drwy gydol oes y cynllun hwn i fynd i'r afael â throseddau casineb, trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae'r tîm Diogelwch Cymunedol wedi parhau i brosesu digwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol ledled Bro Morgannwg ac yn gweithio i gyflawni mesurau ataliol i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol. Bu gostyngiad mewn atgyfeiriadau o Gam 1, gan ddangos effeithiolrwydd y broses o leihau gwaethygu ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn ardaloedd penodol fel adeiladau adfeiliedig ym Mhenarth a thanau a ddechreuwyd yn Ynys y Barri wedi ysgogi'r Tîm Diogelwch Cymunedol i ddarparu mesurau mwy ataliol. Rydym hefyd wedi gwneud cais llwyddiannus am gyllid Comisiynydd Heddlu a Throseddu ar gyfer gwaith ymgysylltu gyda'r bobl ifanc hyn a thrafodaethau amlasiantaethol eraill i drafod gwaith atal.

Rydym wedi gweithio gyda Heddlu De Cymru mewn cysylltiad â chynnydd mewn digwyddiadau beicio oddi ar y ffordd. Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol ar hyd arfordir Caerdydd a Bro Morgannwg wedi mwy na haneru yn y ddwy flynedd ddiwethaf oherwydd Operation Elstree, dull amlasiantaethol sydd â'r nod o gadw ardaloedd arfordirol yn ddiogel ac yn addas i deuluoedd. Rhwng mis Mai a mis Medi 2022, cyhoeddwyd dros 1800 o ddirwyon am droseddau cyhoeddus, 23 o arestiadau, a dros fil o oriau patrôl ychwanegol ar droed, ceffyl, beic cwad a chwch.

Rydym hefyd yn parhau i weithio gyda Cymru Ddiogelach a nifer o wasanaethau arbenigol i gyfeirio dioddefwyr y gallai fod angen cymorth gwahanol arnynt. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys Bawso, Prosiect Dyn, New Pathways, Rainbow Bridge, a Byw Heb Ofn. Mae prosiectau a grwpiau newydd yn 2022/23 yn cynnwys Prosiect Cedar (Pobl) a Drive, sy'n canolbwyntio ar ddynion a gyflawnodd neu a achosodd niwed.

Rydym wedi parhau i weithio ar y strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV), i'w diweddarau ar gyfer 2023-28. Mae'r strategaeth wedi'i diweddarau yn cynnwys ymrwymïadau newydd o ran tagu, plant yn ddioddefwyr yn eu rhinwedd eu hunain, a pholisïau newydd ar gyfer aflonyddu ar y stryd ac yn y gweithle. Rydym yn gweithio gyda Gwasanaeth Cam-drin Domestig y Fro sydd wedi newid ei enw o Atal y Fro. Mae'n parhau i fod yn ddarparwr cymorth arbenigol yn y Fro sy'n gweithio i sicrhau y gall dioddefwyr cam-drin domestig gael gafael ar gymorth, cefnogaeth ac amddiffyniad.

Rydym yn darparu cyfarfodydd ddwywaith yr wythnos sydd wedi gwella canlyniadau i ddioddefwyr cam-drin domestig risg uchel drwy sicrhau y darperir dull amlasiantaethol cyflymach. Adroddwyd tua 12 o achosion bob mis. Roedd tua 3% o'r achosion yn ddioddefwyr LHDT+ a 5% yn Ddu neu leiafrif ethnig. Ar gyfartaledd, cafodd 7% o achosion eu dargyfeirio i ffwrdd o'r broses Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC). O'r achosion a adolygwyd drwy'r broses MARAC, roedd rhan fwyaf y dioddefwyr yn fenywod.

Rydym yn parhau i hyrwyddo Cyfraith Clare fel arf hanfodol i gefnogi diogelwch menywod sy'n credu y gallent fod mewn perthynas â throeddwr cam-drin domestig. Ar gyfartaledd, roedd 11 cais y mis i Gyfraith Clare.

Rydym wedi prosesu Hysbysiadau Diogelu'r Cyhoedd (HDCau) safonol a chanolig lle mae'r dioddefwr wedi rhoi caniatâd i'w data gael ei rannu. Yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn, cawsom 270 o achosion. Ym mwyafrif yr achosion roedd y ddioddefwyr yn ferched. Roedd dros 100 o'r achosion hyn yn droseddwr mynych, sydd o fewn disgwyliadau. Gwnaed dros 500 o atgyfeiriadau gan Gydlynnydd Atgyfeirio Asesiadau Cam-drin Domestig (CAACD). Dywedodd 100% o ddioddefwyr cam-drin domestig eu bod yn teimlo'n fwy diogel o ganlyniad i welliannau diogelwch i'w cartrefi a ddarparwyd gan y Bartneriaeth Bro Ddiogelach.

Ar gyfartaledd, rydym yn gweld tua 12 o ddigwyddiadau casineb bob mis. O'r rhain, mae'r mwyafrif yn ddigwyddiadau hiliol mudol, gyda 150 o droseddau yn ymwneud â hil yn 2022/23. Mae'r digwyddiadau mwyaf cyffredin nesaf o ganlyniad i gyfeiriadedd rhywiol a materion trawsryweddol, a oedd â 31 o achosion yr un yn 2022/23. Rydym yn parhau i weithio gyda Heddlu De Cymru i hyrwyddo riportio troseddau casineb yn weithredol, felly nid yw cynnydd yn nifer yr achosion yr adroddwyd amdanynt o reidrwydd yn arwyddion negyddol o gynnydd gwirioneddol mewn troseddau casineb.

Rydym yn parhau i wneud cynnydd ar gynllun cyflawni'r Bartneriaeth Bro Ddiogelach i gwblhau camau gweithredu erbyn mis Mawrth 2023. Rydym hefyd yn gweithio ar strategaeth gyfathrebu i'w lansio ochr yn ochr â Strategaeth Bro Ddiogelach 2023-28, sy'n cael ei diweddarau eleni. Rydym yn gweithio gyda'r Bartneriaeth Bro Ddiogelach i greu amgylchedd diogelach i drigolion, gweithwyr ac ymwelwyr, heb drosedd, anhrefn ac ofn troseddau. Mae strategaeth Partneriaeth Bro Ddiogelach 2020-2023 yn canolbwyntio ar ymddygiad gwrthgymdeithasol, cam-drin domestig, cydlyniant cymunedol ac ymgysylltu â'r gymuned, gan ymateb yn weithredol i unrhyw faterion cymunedol eraill sy'n codi.

Rydym yn parhau i edrych ar wella Agenda ac aelodaeth y Grŵp Cydlyniant Cymunedol, gan gynnwys estyn allan at gymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol ar hyn o bryd. Rydym wedi recriwtio swyddog cydlyniant cymunedol newydd sydd wedi cefnogi

cynnydd ar y camau gweithredu yn y cynllun cydlyniant cymunedol ac wedi helpu i hyrwyddo mentrau cymunedol a diwrnodau cenedlaethol drwy ein platfformau cyfryngau cymdeithasol.

Rydym yn parhau i fod â phresenoldeb gweithredol ar-lein i wella cydlyniant a darparu gwybodaeth i drigolion. Yn ystod y cyfnod hwn, postiodd Diogelwch Cymunedol dros 200 o weithiau ar Instagram at 170 o ddilynwyr, trydarodd hanner can gwaith y mis ar gyfartaledd i'r 960 o ddilynwyr ar Twitter, a phostiodd y rheolaidd at y 640o ddilynwyr ar Facebook. Roedd postiadau Facebook hefyd yn cynnwys rhannu negeseuon gan sefydliadau partner eraill.

Derbyniodd Cyngor Bro Morgannwg sylw'r cyfryngau ym mis Awst 2022 ar ôl gwrthod canslo digwyddiadau Drag Queen Story Hour hynod boblogaidd mewn llyfrgelloedd ledled y sir. Gwrthwynebodd nifer fach o brotestwyr y digwyddiadau. Cyhoeddodd y Cyngor ddatganiad yn dweud "rydym yn falch o gynnig profiadau sy'n adlewyrchu amrywiaeth ein trigolion. Mae Drag Queen Story Hour yn gyfle i ysbrydoli cariad at ddarllen, tra'n dysgu gwersi dyfnach am amrywiaeth, hunangariad a gwerthfawrogi pobl eraill. Mae hefyd negeseuon pwysig ynghylch derbyn a chynwysoldeb."

Amcan Cydraddoldeb Strategol Wyth

Ystyried anghenion tai pobl â nodweddion gwarchoddedig a sut mae ein gwaith yn effeithio arnynt, gan gymryd camau i fynd i'r afael ag unrhyw effeithiau anghymesur ar y grwpiau hyn.

Strategaeth Tai Pobl Hŷn Ddrafft 2022 – 2036

Mae'r Strategaeth yn nodi sut y bydd y Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â thrigolion a rhanddeiliaid i fodloni gofynion tai ar gyfer pobl hŷn a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i wella ansawdd bywyd trigolion hŷn Bro Morgannwg. Mae'n darparu gweledigaeth a fframwaith lefel uchel ar gyfer mynd i'r afael ag anghenion poblogaeth sy'n heneiddio. Yn ystod 2022, gwnaethom ymgynghori â staff o bob rhan o'r Cyngor, sefydliadau partner, pobl hŷn, a defnyddio dadansoddiad o

ddemograffeg leol. Cafodd y Strategaeth Ddrafft ei chymeradwyo gan y Cabinet ym mis Ionawr 2023.

Tai Fforddiadwy

Yn Chwarter 2, dynodwyd 89% o'r 36 o anheddau a gymeradwywyd drwy'r system gynllunio yn dai fforddiadwy. Rydym yn parhau i gymhwyso polisiau tai fforddiadwy cadarn a thrafod gyda datblygwyr i sicrhau 30-40% o dai fforddiadwy.

Tai CAMPUS

Mae tri thrigolyn wedi symud i mewn i'r tŷ Pontio CAMPUS newydd-ddatblygedig yn Castle Avenue, Penarth. Nod y cynllun yw gwella canlyniadau i'n dinasyddion drwy gefnogi byw'n annibynnol a gwella lles. Cwblhawyd tŷ CAMPUS arall yn Carys Close ym mis Tachwedd 2022.

Ffoaduriaid

Rydym yn datblygu tua 90 o unedau lleety dros dro yn Llanilltud Fawr i ddarparu tai byrdymor o ansawdd uchel i ffoaduriaid o Wcráin. Rydym wedi ymrwmo i ddatganiad Llywodraeth Cymru bod Cymru'n 'Genedl Noddfa', ac yn parhau i wneud ymdrech sylweddol i helpu'r rhai mewn angen. Nid yw'r unedau yn adeileddau parhaol, felly gellir eu symud i leoliad arall yn y dyfodol os oes angen. Rydym hefyd yn edrych ar weithio gyda'r Weinyddiaeth Amddiffyn gyda'r bwriad o brydlesu tua deg eiddo i helpu i ddarparu ar gyfer ffoaduriaid o Afghanistan.

Cefnogi Pobl

Mae'r rhaglen Cefnogi Pobl yn gyfrifol am ymgysylltu â chleientiaid agored i niwed sy'n anodd eu cyrraedd a rhoi cymorth iddynt gynnal eu tenantiaethau. Mae gwasanaethau ar gael i bawb, ac mae atgyfeiriadau yn seiliedig ar angen unigol. Nid oes unrhyw rwystrau i ddefnyddio ein gwasanaethau. Cafodd cyfanswm o 3392 o bobl gefnogaeth eleni. Oherwydd y nifer fawr o wasanaethau larwm yr ydym yn eu hariannu, pobl dros 60 oed yw'r ddemograffeg fwyaf o ddefnyddwyr gwasanaeth. Mae mwy o fenywod na dynion yn derbyn cymorth, gyda 61% o ddefnyddwyr gwasanaeth yn nodi eu bod yn fenywod ac mae mwyafrif y rhai sy'n derbyn cymorth yn nodi eu bod yn Brydeinwyr gwyn ar 57%.

Rydym yn cynnal gwaith monitro cydraddoldeb ar holl ddefnyddwyr gwasanaeth a thenantiaid i sicrhau nad yw holl rai â nodweddion gwarchoddedig yn cael eu heffeithio'n andwyol gan bolisiau na gwasanaethau mewn unrhyw ffordd. Rydym hefyd wedi comisiynu gwasanaeth trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) newydd.

Datrysiadau Tai

Mae atal digartrefedd yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Mae'r tîm Datrysiadau Tai yn darparu'r swyddogaeth digartrefedd statudol, yn rheoli llety dros dro, ac yn darparu cyngor ar dai. Rydym yn gweithio gydag ysgolion a Llamau ar y Prosiect Digartrefedd leuenctid fel mesur ataliol i gefnogi pobl ifanc a dysgwyr sydd mewn perygl o fod yn ddigartref. Rydym hefyd yn gyfrifol am y system dyrannu tai Homes4U ar ran landlordiaid cymdeithasol ym Mro Morgannwg.

Mae nifer gyffredinol y ceisiadau Homes4U wedi gostwng eleni, ond mae nifer yr ymgeiswyr sy'n ddyddion wedi cynyddu rhywfaint. Mae disgwyl hyn oherwydd newidiadau mewn deddfwriaeth oherwydd y pandemig. Cawsom arweiniad gan Lywodraeth Cymru i ddileu ymchwiliadau angen â blaenoriaeth, sydd yn hanesyddol wedi bod yn bwysig wrth reoli'r galw.

Mae'r tîm Datrysiadau Tai yn parhau i weithio gydag aelwydydd i leihau rhwystrau rhag cael llety. Mae'r cynnydd i gyllid atal yn darparu cyfleoedd i achub tenantiaid presennol a darparu bondiau neu rent ymlaen llaw ar gyfer tenantiaethau newydd yn y sector rhentu preifat. O ran cael llety rhent cymdeithasol, rydym hefyd yn caniatáu i gyn-denantiaid sydd â dyledion ailymuno â'r rhestr aros tai ar yr amod bod cytundebau ad-dalu ar waith a bod 25% o'r ddyled wedi'i chlirio.

Rydym wedi gweithio i ddylanwadu ar y Strategaeth Ailgartrefu Cyflym sydd bellach wedi'i chwblhau. Byddwn yn defnyddio'r cynllun i adolygu datblygiad tai cymdeithasol a'r cynllun Homes4U. Rydym wedi penodi Swyddog Ailgartrefu Cyflym i ddatblygu camau gweithredu o fewn y Strategaeth Ailgartrefu Cyflym. Mae'r Strategaeth yn nodi sut y bydd y Cyngor yn lleihau'r ddibyniaeth ar ddefnydd gwely a brecwast a mathau eraill o lety dros dro. Ein nod hefyd yw lleihau costau llety dros dro drwy adeiladu mwy o dai cymdeithasol, gweithio gyda landlordiaid preifat i sicrhau bod

mwy o eiddo rhentu preifat ar gael, ac ystyried cwmpas i gael gwared ar gyfyngiadau sy'n effeithio ar allu pobl ddiartref i wneud cais am eiddo penodol fel cartrefi dynodedig oedran ac eiddo sy'n amodol ar feini prawf gosod tai'n lleol.

Mae'r Strategaeth Tai Pobl Hŷn wedi ei mabwysiadu mewn egwyddor gan y Cabinet. Mae'r strategaeth yn adlewyrchu arferion gorau a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg, gan ymgorffori adborth gan ystod o bartneriaid, gan gynnwys cydweithwyr o'r Gwasanaethau Oedolion, Iechyd, Fforwm 50+ y Fro, a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.

Byddwn yn parhau i asesu'r broses ddyrannu ar gyfer aelwydydd ag anghenion tai hygyrch i sicrhau bod ymgeiswyr ag anableddau bellach yn cael eu hystyried ar gyfer nifer fwy o gartrefi gan ystyried pob addasiad rhesymol a phriodol.

Budd-daliadau

Mae Budd-dal Tai a Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn helpu llawer o bobl ledled Bro Morgannwg gyda'u costau tai. Mae'n allweddol i waith y Cyngor o ran anfantais economaidd-gymdeithasol a chostau byw. Er ein bod yn helpu llawer o bobl â nodweddion gwarchoddedig, mae'r ddeddfwriaeth yn pennu'n benodol sut mae hawl y bobl hyn yn cael ei asesu. Er enghraifft, gall anabledd effeithio ar gyfradd yr hawl ac mae rheoliadau gwahanol ar gyfer pobl o oedran pensiwn.

Rydym yn gofyn cwestiynau drwy ein ffurflen gais ar-lein i gyfrifo hawl yn gywir. Mae rhai cwestiynau'n orfodol ond mae cwestiynau eraill am hil, ethnigrwydd a hunaniaeth genedlaethol yn ddewisol. Nid yw'r ateb yn effeithio ar gyfradd yr hawl, ond mae'n helpu i sicrhau ein bod yn cyrraedd pobl ar draws y Fro. Mae llawer o bobl yn gadael y cwestiynau am hil, grŵp ethnig a hunaniaeth genedlaethol yn wag. Fodd bynnag, o 5479 o ymatebion, nododd 5016 fod eu hunaniaeth ethnig yn Wyn Prydeinig. Y grwpiau uchaf nesaf oedd Gwyn Arall (162) a Gwyn a Du Caribïaidd (48.).

Bu gostyngiad yn y budd-dal tai oedran gweithio a llwyth achosion Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Mae nifer yr hawliadau oedran gweithio â phasbort sy'n derbyn Budd-dal Tai a Gostyngiadau'r Dreth Gyngor wedi gostwng o 2658 i 1838. Mae'r gostyngiadau hyn yn adlewyrchu mwy o bobl oedran gweithio sy'n symud i Gredyd

Cynhwysol. Fodd bynnag, nid oeddem yn disgwyl gweld gostyngiad mewn hawliadau oedran pensiwn o 1309 i 1217, felly byddwn yn parhau i fonitro ac ystyried gwaith wedi'i dargedu i sicrhau bod pensiynwyr yn parhau i wneud cais am Fudd-dal Tai a Gostyngiad y Dreth Gyngor.

Mae'r wybodaeth hon yn ein galluogi i gynllunio ar gyfer effaith diwygiadau lles eraill a allai effeithio ar y gyllideb ar gyfer Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn. Rydym hefyd yn echedynnu data drwy gydol y flwyddyn i fonitro'r llwyth achosion a thueddiadau. Mae hyn yn cynorthwyo gyda chynllunio cyllidebol ar gyfer Gostyngiad y Dreth Gyngor. Disgwyliwn weld gostyngiad mewn Budd-dal Tai Oed Gweithio gan fod Credyd Cynhwysol yn disodli Budd-dal Tai ar gyfer hawliadau oedran gweithio, ac mae hyn yn caniatáu i ni geisio cynllunio ar gyfer y dyfodol. Mae hefyd yn ein helpu i gynllunio ar gyfer lefelau staffio.

Llety Sipsiwn a Theithwyr

Gwnaethom gyhoeddi ein Hasesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr ym mis Mehefin 2022 sy'n darparu asesiad cadarn a chredadwy o'r angen presennol ac yn y dyfodol am lety Sipsiwn a Theithwyr ym Mro Morgannwg. Mae hyn wedi cyfrannu at gyfnod newydd y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) hyd at 2036. Mae'r astudiaeth wedi amcangyfrif darpariaeth llain ychwanegol ar gyfer cyfnod y CDLI o un ar ddeg cae ar draws y sir ac y gallai fod angen mwy o ddarpariaeth dramwy i gefnogi teuluoedd crwydrol yn llawn.

Amcan Cydraddoldeb Strategol Naw

Gweithio mewn partneriaeth i ystyried materion sy'n ymwneud â hygyrchedd trafndiaeth, yn enwedig ar gyfer pobl anabl a phobl hŷn

Dechreuodd y gwaith ym mis Ionawr 2023 ar y gyfnewidfa drafndiaeth newydd yn Swyddfeydd y Dociau a gorsaf Dociau'r Barri. Bydd hwn yn fan cyfarfod ar gyfer gwahanol ddulliau trafndiaeth, trenau cyswllt, bysiau, beiciau a gwasanaethau tacsî, gan greu hyb teithio cynaliadwy. Mae hyn yn cael ei gyflawni mewn partneriaeth â Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd a Llywodraeth Cymru.

Rydym yn cynllunio gwelliannau i safleoedd bws yn y Rhws gan ddefnyddio cyllid gan Lywodraeth Cymru i wella'r cynllun Teithio Llesol a darparu gwell cyfleuster ar gyfer Gwasanaeth Cyswllt Rheilffordd Maes Awyr Caerdydd. Mae rhagor o welliannau wedi'u cynllunio i safleoedd bws ar gyfer trefi eraill y Fro i gynnwys arddangosfeydd solar a gwella hygyrchedd.

Rydym yn parhau i weithredu'r gwasanaeth wedi'i addasu gan Greenlinks ar gyfer trigolion â phroblemau symudedd, gan sicrhau bod gyrwyr wedi'u hyfforddi'n llawn i gludo teithwyr anabl. Rydym yn cydweithio â Fforwm 50+ y Fro, y cabinet ieuencid a bysiau trafndiaeth gyhoeddus i fodloni rheoliadau Hygyrchedd Cerbydau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Mae trafndiaeth yn bryder mawr i ymwelwyr ag Ynys y Barri, fel y dangosir gan arolwg blynyddol y gwasanaeth Twristiaeth. Dywedodd 94% o'r ymatebwyr fod parcio ceir, mynediad i ffyrdd a thrafnidiaeth gyhoeddus yn wael iawn, yn gyfartalog neu'n dda. Roedd 61% o'r ymatebwyr yn teithio mewn car, ac roedd 76% yn ystyried eu hunain yn 'lleol'. Mae 50% o'r ymatebwyr yn sgorio Ynys y Barri yn 'dda' fel cyrchfan a byddai 78% yn sicr yn dychwelyd. Mae trafndiaeth a hygyrchedd yn parhau i fod yn brif bryderon i'r cyhoedd.

Amcan Cydraddoldeb Strategol Deg

Datblygu a gweithredu cynlluniau drwy gydol oes y cynllun hwn i hyrwyddo ein hamgylchedd naturiol ac adeiledig a'n treftadaeth ddiwylliannol, gan gynnwys hygyrchedd, i grwpiau gwarchoddedig.

Rydym wedi gwella hygyrchedd yn Ynys y Barri. Erbyn hyn mae darpariaeth ar gyfer cadeiriau olwyn traeth ym Mae Whitmore yn Ynys y Barri, yn ogystal â chyfleusterau Mannau Newid newydd wedi'u lleoli yn y Lloches Orllewinol.

Mae ymatebion i Arolwg Boddhad Cwsmeriaid Ynys y Barri 2022 yn dangos bod y rhan fwyaf o ymwelwyr yn rhai sy'n dychwelyd a fyddai'n argymhell y gyrchfan i eraill. Y lleoliad a'r traeth yw'r ffactorau cryfaf sy'n ysgogi pobl i ymweld. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr nad oedden nhw'n anabl tra bod beirniadaeth am y cynnydd yn

nifer y lleoedd parcio anabl. Rydym yn edrych ar sut y gallwn arolygu ystod ehangach o ymwelwyr â gwahanol nodweddion gwarchoddedig, gan gynnwys y rhai ag anableddau.

Gwnaethom lansio Tîm Datblygu Cymunedol newydd yn nhymor yr hydref 2022 i gynorthwyo cymunedau gyda phrosiectau a chael gafael ar gyllid, gan adeiladu ar waith da rhaglen Cymunedau Gwledig Creadigol y Fro a ddaeth i ben yn 2022.

Gwnaethom wahodd grwpiau cymunedol i wneud cais am Gronfa Grant Sylfaen y Maer a'r Gronfa Grant Cymunedau Cryf yn Haf 2022.

Gwnaethom gynnig cyfle i grwpiau lleol gael mynediad at gyllid drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU. Gwnaethom gynnal cyfres o ddiwrnodau 'hacio' er mwyn i sefydliadau'r trydydd sector a busnesau lleol i weithio gyda'i gilydd i ddatblygu syniadau newydd i fynd i'r afael ag effeithiau'r argyfwng costau byw a heriau cymdeithasol eraill.

Gwnaethom gynnal ail PhotoBARRYthon ym mis Awst 2022 dros dri digwyddiad am ddim ar wahân, gan roi cyfle i gyfranogwyr gipio gwahanol agweddau ar y Barri.

Buom yn gweithio gyda phartneriaid a thrigolion i drawsnewid safle adfeiliedig yn y Barri yn ardd lewyrchus i'r gymuned ei mwynhau.

Materion eraill sy'n berthnasol i'r ddyletswydd gyffredinol a'r dyletswyddau penodol

Fe welwch yn [Atodiad 4](#) bod gwasanaethau wedi casglu data a hyrwyddo cydraddoldeb mewn sawl ffordd.

Yn ogystal â hyn, rydym yn adrodd ar faterion eraill sy'n ein helpu i hyrwyddo cydraddoldeb isod.

Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol

Gwnaethom sefydlu grŵp trawsadrannol ym mis Mai 2022 mewn ymateb i'r argyfwng costau byw. Derbyniodd dros 35,000 o drigolion cymwys daliadau Costau Cymorth Byw untro o £150, yn seiliedig ar aelwydydd mewn banciau Treth Gyngor A-D a chwsmeriaid sy'n derbyn Gostyngiad y Dreth Gyngor. Archwiliodd y grŵp drefniadau gweinyddu cronfa ddewisol Llywodraeth Cymru i gefnogi'r rhai nad ydynt yn gymwys ar gyfer y prif gynllun, ond sy'n cael eu heffeithio gan y pwysau ariannol sy'n gysylltiedig â chostau byw. Ym mis Rhagfyr 2022, mae dros 8,500 o bobl wedi derbyn cyfanswm o £1,705,400 ac mae 958 o ymgeiswyr eraill yn cael eu prosesu.

Fel rhan o'n gwaith i gefnogi trigolion drwy'r argyfwng costau byw, gwnaethom ddatblygu cynllun Croeso Cynnes. Mae hwn yn rhwydwaith o fannau cymunedol sy'n cynnig lle cynnes a braf i bobl ddod at ei gilydd ym misoedd y gaeaf hwn heb unrhyw gost. Rydym wedi dyfarnu bron i £30,000 i brosiectau cymunedol drwy'r fenter Croeso Cynnes, a ddefnyddir gan fwy na 3,500 o bobl. Cymerodd bron i 40 o leoliadau ledled y Fro ran. Gwnaeth rhai lleoliadau ddarparu gweithgareddau fel crefftiau neu lyfrau, gwnaeth eraill ddarparu wi-fi a lle i weithio gyda gliniadur. Darparodd pob lleoliad luniaeth, o de a choffi i brydau wedi'u coginio. Bydd tua deg cynllun yn dod â'r ddarpariaeth i ben yn y Gwanwyn, ond bydd y mwyafrif yn parhau, gan ddarparu gwasanaeth cymunedol gwerthfawr.

Rydym hefyd wedi derbyn cyllid i helpu i fynd i'r afael â thlodi bwyd. Erbyn mis Rhagfyr 2022, roeddem wedi dyfarnu:

- £32,747 drwy'r Gronfa Cymorth i Aelwydydd i gefnogi aelwydydd yn uniongyrchol;
- Mae £29,920 o gyllid Cymorth Bwyd Uniongyrchol wedi'i ddyrannu i sefydliadau cymorth bwyd lleol;
- Mae £50,000 o gyllid Costau Byw Dewisol wedi'i ddefnyddio i gefnogi Banc Bwyd y Fro ac mae'r cynigion bwyd cymunedol lleol yn rhedeg drwy'r chwe ysgol yng nghlwstwr ysgol Pencoedtre.
- Mae £11,671 o gyllid Banciau Cynnes wedi'i ddyrannu i amrywiaeth o sefydliadau ar gyfer y cynllun Croeso Cynnes.

Rydym hefyd yn deall ac yn gwerthfawrogi bod yr argyfwng costau byw yn effeithio ar lawer o staff y Cyngor hefyd. Mewn ymateb, rydym wedi creu hyb costau byw ar Staffnet. Mae hyn yn darparu gwybodaeth am gyllidebu, hawlio budd-daliadau, ac iechyd a lles, yn ogystal â chysylltiadau i asiantaethau cynghori. Mae gennym dudalen costau byw penodol ar wefan allanol Bro Morgannwg, gyda chyfoeth o wybodaeth ac adnoddau. Gwnaethom hefyd gynnal gweminar costau byw ym mis Tachwedd 2022.

Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Rydym wedi cael system ar gyfer asesu effaith ein gwaith ar grwpiau gwarchoddedig am sawl blwyddyn. Rydym yn ei hadolygu ac yn ei gwella o bryd i'w gilydd. Rydym yn cyhoeddi canlyniadau ein hasesiadau ar ein gwefan.

Ym mis Ionawr 2017, cyflwynom broses newydd ar gyfer cynnal asesiadau effaith ar gydraddoldeb. Ceir dolenni i ganllawiau, ymchwil a data. Mae'n caniatáu i swyddogion ddechrau'r broses ac yna mae'n rhaid iddynt gysylltu â'r Tîm Cydraddoldeb am gyngor. Gobeithiwn y bydd hyn yn gwella ansawdd yr asesiadau.

Rydym yn parhau i gefnogi rheolwyr i feddwl am eu gwaith yn y ffordd hon. Rydym yn cynnig hyfforddiant ar sut i gynnal asesiadau. Mae modiwl e-ddysgu i bobl ddysgu

ar-lein sut i'w wneud. Gofynnwn iddynt ddangos eu hystyriaethau ar ffurf cofnod ffurfiol y gallwn ei gyhoeddi.

Mae'n bwysig inni ystyried sut y gallai newidiadau cyllidebol a mwy o bwysau ar gyllidebau effeithio ar ein gwasanaethau. Wrth i ni baratoi cyllidebau, rydym yn meddwl am sut y gallai newidiadau effeithio ar grwpiau gwarchoddedig. Rydym hefyd yn meddwl am sut y gallwn leihau effeithiau negyddol arnynt. Rydym yn cyhoeddi ar ein gwefan yr asesiad o ran sut mae'r gyllideb yn effeithio ar grwpiau gwarchoddedig.

Er mwyn paratoi ar gyfer cyflwyno'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol a ddaeth i rym ar 31 Mawrth 2021, gwnaethom ddiwygio ein proses asesu effaith ar gydraddoldeb a'n canllawiau i ystyried anfantais economaidd-gymdeithasol. Ar yr un pryd, roeddem hefyd yn adlewyrchu ystyriaethau'r Iaith Gymraeg yn y broses asesu.

Rydym wedi ystyried adroddiad Archwilio Cymru '[Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb: Mwy nag ymarfer blwch ticio](#)'. O ganlyniad, rydym wedi dechrau adolygiad o'n proses gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol, gan gynnwys aelodau'r Fforwm Cydraddoldeb Ymgynghorol.

Hyfforddiant Cydraddoldeb

Rydym yn parhau i gynnig modiwlau e-ddysgu ar amrywiaeth o bynciau cydraddoldeb. Mae'r hyfforddiant hwn yn cwmpasu rhai meysydd gan gynnwys: cydraddoldeb ac amrywiaeth; gwahaniaethu; y Ddeddf Cydraddoldeb; sut i asesu effaith ein gwaith ar grwpiau gwarchoddedig (asesiadau effaith cydraddoldeb); ymwybyddiaeth o anabled; a materion LHDTTC+ a thraws.

Gall staff edrych ar y modiwlau e-ddysgu o'u cyfrifiaduron a ddarperir gan y Cyngor. Gallant hefyd gael mynediad atynt o'u cartrefi drwy eu dyfeisiau personol. Gall hyn ei wneud yn haws i rai pobl wneud yr hyfforddiant. Gallwn fonitro pwy sydd wedi cwblhau'r math hwn o hyfforddiant.

Mae hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth wedi bod yn orfodol i bob aelod o 2022 gyda sesiwn gychwynnol a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2022 fel rhan o'r rhaglen Sefydlu Aelodau newydd.

Hyfforddiant Gwrth-Hiliaeth

Fe wnaethom archwilio'r ffordd orau i ni ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth gwrth-hiliaeth gyda'r bwriad o dreialu opsiynau mewn ysgolion ac ar sail gorfforaethol yn 2022/2023.

Cyflwynodd No Boundaries hyfforddiant gwrth-hiliaeth i'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol ym mis Tachwedd 2022. Gwnaethom benderfynu y byddai'n ddefnyddiol cyflwyno'r hyfforddiant i adrannau eraill.

Yna cafodd y gweithdy gwrth-hiliaeth ei gyflwyno i staff o Wasanaethau Cymdogaeth, Trafnidiaeth, Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir, a'r Gwasanaethau Amgylchedd a Thai ym mis Mawrth 2023. Cymerodd tua 15 o aelodau staff ran.

Caffael

Mae proses gaffael gorfforaethol y Cyngor yn sicrhau bod prosesau caffael yn ystyried Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth statudol. Mae hyn yn cynnwys diwydrwydd dyladwy drwy ddogfennau tendro.

Mae proses ddethol diwydrwydd dyladwy gorfodol y Cyngor yn cyfeirio at rwymedigaethau statudol y cyflenwr posibl o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 gyda phob nodwedd warchoddedig wedi'i phennu'n unigol. Os yw'r ymateb yn anfoddhaol, mae'n fethiant awtomatig ac felly ni fydd y cyflenwr yn symud ymlaen ymhellach yn yr ymarfer caffael.

Mae cam dyfarnu'r broses gaffael hefyd yn cynnwys gofynion cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer gwerthuso.

Rydym wedi cyhoeddi Polisi a Strategaeth Gaffael newydd ar gyfer 2023-2027. Y nod cyffredinol yw bod yr holl benderfyniadau caffael yn cael eu gwneud trwy lens Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r polisi newydd yn cynnwys fframwaith ar gyfer safonau gofynnol, disgwylidig a dewisol ar gyfer meysydd penodol o gaffael cynaliadwy a moesegol. Bydd y safonau hyn yn cael eu hadlewyrchu ym mhrosesau a dogfennau caffael y Cyngor.

Cynllun Hyderus o ran Anabledd

Rydym yn falch o fod yn aelod o'r cynllun hwn. Mae'n cydnabod cyflogwyr sy'n helpu ymgeiswyr anabl i mewn i waith ac sy'n cefnogi cyflogeion pe baen nhw'n dioddef iechyd gwael yn ystod eu bywyd gwaith.

Dan y cynllun, rydym yn helpu pobl ag anableddau mewn sawl ffordd.

Cyfweliadau Hygyrch

Rydym yn cael gwared ar rwystrau drwy gynnig pethau fel: parcio, arwyddwyr; Braille; mynediad i gadeiriau olwyn; system ddolen; neu ddehonglwr.

Ystyriaeth o flaen llaw

Rydym yn gwarantu cyfweliad I bobl ag anableddau ar yr amod eu bod yn bodloni gofynion hanfodol y fanyleb person ar gyfer y swydd.

Lleoliad cyfweliad

Rydym yn gallu trefnu ymweliad i leoliad y cyfweliad cyn y cyfweliad. Yna gallwn wneud addasiadau cyn y cyfweliad os bydd pobl angen hynny

Datblygu galluoedd

Rydym yn sicrhau bod cyfle i bobl ddatblygu a defnyddio eu galluoedd. Rydym yn gwneud hyn trwy ein system Adolygiad Datblygiad Personol #maeamdanafi

Cefnogi cyflogeion

Rydym yn cefnogi cyflogeion i aros mewn cyflogaeth pe baent yn cael anabledd. Rydym yn cynnig gwasanaeth iechyd galwedigaethol a gwasanaeth cwnsela.

Codi ymwybyddiaeth

Rydym yn trefnu i helpu staff i wybod mwy am anabledd. Rydym hefyd yn hysbysebu ein hymrwymiad ar ein Staffnet ac ar bosteri yn yr adeilad.

Adolygu'r cynllun

Rydym yn gwirio'n rheolaidd sut mae'r cynllun yn cael ei redeg ac yn cynllunio gwelliannau. Rydym wedi gallu treialu cynllun profiad swydd ac wedi cynnig lleoliadau i nifer o ymgeiswyr gwaith.

Pencampwr Amrywiaeth Stonewall

Parhaom i fod yn aelod o raglen Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall. Rydym wedi datblygu cynllun gweithredu i wella'r gweithle i bobl lesbaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywedol. Mae hyn yn ein helpu i sicrhau ein bod ni'n trin pobl yn deg pan fyddant yn gyflogeion neu'n ymgeisio am swyddi.

Mae ein gwaith wedi cynnwys cefnogi rhwydwaith LHDTTC+ a chynghreiriaid, a ail-lansiwyd ym mis Ionawr 2019 o dan yr enw 'GLAM'. Mae gennym hefyd Hyrwyddwyr LHDTTC+ ar lefel yr Aelodau ac uwch reolwyr.

Rydym yn cymryd rhan ym mynegai Stonewall ar gyfer Cydraddoldeb yn y Gwaith. Mae'r Fynegai yn creu fframwaith i wella cynhwysiant pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws yn y gwaith.

Yn rhan o'n gwaith ar gyfer y Fynegai Cydraddoldeb yn y Gwaith, a chyda chefnogaeth Stonewall, rydym wedi drafftio Polisi Trawsnewid yn y Gwaith a dogfen cwestiynau ac atebion traws.

Yn ystod y tair blynedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi parhau i wella ei safle yn y Fynegai Cydraddoldeb yn y Gwaith. Mae hyn yn gyflawniad arbennig ac ystyried y

cynnydd sylweddol yn nifer y sefydliadau sy'n cymryd rhan. Dyfarnwyd gwobr arian i Gyngor Bro Morgannwg ar gyfer 2022/23 a'i osod yn safle 126 o blith 400 o sefydliadau.

Wythnos Cydraddoldeb Hiliol

Gwnaethom nodi Wythnos Cydraddoldeb Hiliol am yr eildro drwy hyrwyddo Her 5 Diwrnod Materion Cydraddoldeb Hiliol drwy e-byst ac erthyglau ar Staffnet+. Anogwyd staff ar draws y Cyngor i gwblhau'r ymarferion a'r heriau myfyrio dyddiol pum munud, gan wyllo fideos i archwilio gwahanol themâu gan gynnwys ymddygiad microymosodol a gwrth-hiliaeth.

O fewn yr erthyglau dyddiol, gwnaethom rannu gwybodaeth am y rhwydwaith Amrywiol, statws Arloesi, Mannau Diogel, a hyrwyddo'r datrysiad #FyEnwYw.

Mae diwrnod pump Wythnos Cydraddoldeb Hiliol yn galw ar staff i wneud Addewid Mawr i ddangos ymrwymiad i gydraddoldeb hiliol. Cymerodd uwch arweinwyr ran, a gwnaethom rannu Addewid Mawr y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Adnoddau.

Derbyniodd dros 99% o staff Cyngor Bro Morgannwg yr erthyglau a'r heriau dyddiol trwy e-bost. Rhannwyd yr erthyglau hefyd ar Staffnet + a gwelwyd pob erthygl dros 1000 o weithiau.

Statws Arloesi

Ym mis Awst 2022, dyfarnwyd statws Arloesi Materion Cydraddoldeb Hiliol i Gyngor Bro Morgannwg i gydnabod ei waith i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb hiliol ar draws y sefydliad, mynd i'r afael ag anghydraddoldeb hiliol a dod yn sefydliad mwy amrywiol, cynhwysol a chyfartal.

Wedi'i greu i gydnabod sefydliadau sy'n gyrru newid ystyrion yn y maes cydraddoldeb hiliol, mae statws Awdurdod Arloesi yn cael ei bennu gan banel annibynnol o arbenigwyr, oll â phrofiad byw o anghydraddoldeb hil yn y gweithle.

Barn y panel oedd bod gwaith y Cyngor i sicrhau bod lleisiau o leiafrifoedd ethnig yn cael eu clywed mewn cyfarfodydd Mannau Diogel yn "glir ac yn sylweddol" a rhoddwyd y sgôr uchaf bosibl i'r Cyngor am y ffordd mae'n sicrhau bod awgrymiadau ynghylch ffyrdd o wella yn cael eu rhoi ar waith.

Dim ond 64% o ymgeiswyr sy'n ennill statws Arloesi, sy'n dangos difrifoldeb y beirniaid wrth benderfynu, a lefel cyflawniad y Cyngor.

Mannau Diogel

Cynhaliwyd ail gyfarfod Mannau Diogel ym mis Rhagfyr 2022 i ddatblygu a pharhau â'r camau gweithredu a symud ymlaen o'r cyfarfod Mannau Diogel cyntaf ym mis Chwefror 2022.

Diwrnod Windrush

Gwnaethom ddathlu Diwrnod Windrush 2022 drwy godi baner Windrush y tu allan i'r Swyddfeydd Dinesig. Cawsom eiliad i feddwl ar gyfer gwahoddedigion gan gynnwys pobl ifanc o seneddau ieuencid y Fro, aelodau'r rhwydwaith Amrywiol, Uwch Dîm Arwain, Cynghorwyr a gwesteion allanol. Ar gyfer 2023, rydym wedi gweithio gydag artist lleol ac Ysgol Holton i gyflwyno prosiect celfyddydau i ddathlu a chodi ymwybyddiaeth o straeon Windrush a mudo, a ariennir drwy grant gan Gyngor Celfyddydau Cymru.

Rhwydweithiau Staff

Mae ein rhwydweithiau staff yn cydweithio â llawer o adrannau ac aelodau staff y Cyngor, yn ogystal â rhoi cymorth i weithwyr y Cyngor. Maent hefyd yn cyfrannu at yr wybodaeth a gyflwynir gan y Cyngor i Fynegai Cydraddoldeb yn y Gwaith Stonewall.

GLAM

Croesawodd y rhwydwaith staff LHDTTC+, GLAM. Mae'r rhwydwaith yn croesawu aelodau LHDTTC+ o bob rhan o'r Cyngor, yn ogystal â chynghreiriaid. Ceir tua 40 o aelodau, sy'n cynnwys aelodau staff, arweinwyr lefel uwch a chynghorwyr. Mae

GLAM hefyd yn cefnogi sesiynau hyfforddi rheolwyr ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn ogystal â hyrwyddo rhagenwau mewn llofnodion e-bost.

Cynhaliodd GLAM ddigwyddiadau cynllunio Pride Uni-Tea ym mis Gorffennaf ac Awst 2022 i baratoi ar gyfer Pride Cymru ar 27 Awst 2022. Mynychodd aelodau, ffrindiau a theulu GLAM yr orymdaith yng Nghaerdydd a chymryd rhan hefyd yn Pride y Barri ym mis Hydref 2022, yn Ynys y Barri.

Roeddem yn gallu cael nawdd i ariannu crysau-t GLAM newydd i aelodau a chyfres o blacardau a baner i ddangos logo a gwerthoedd corfforaethol GLAM. Llofnododd aelodau'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol y placardau i symboleiddio ymrwymiad y Cyngor i gynhwysiant LHDTC+.



Heol y Frenhines, Caerdydd – Pride Cymru, Awst 2022



Aelodau GLAM yn Ynys y Barri – Pride y Barri, Medi 2022

Gadawodd cadeirydd GLAM y Cyngor ym mis Ionawr 2023 ac mae'r broses ar y gweill i ddod o hyd i gadeirydd neu gyd-gadeiryddion newydd i sicrhau bod gweithgareddau a rôl y rhwydwaith yn cael eu cynnal. Rydym hefyd yn defnyddio hyn fel cyfle i adnewyddu'r rhwydwaith, yn edrych ar y ffrydiau gwaith a hyrwyddo aelodaeth ar draws y Cyngor, gan gynnwys mewn ysgolion.

Mae'n gweithio gyda'r rhwydwaith Diverse i sicrhau bod Bro Morgannwg yn lle cadarnhaol, cynhwysol ac anogol i breswylwyr a gweithwyr.

Diverse

Sefydlwyd y rhwydwaith staff Diverse yn ystod 2020 ac fe'i lanswyd yn ffurfiol yn 2021. Ei nod yw codi ymwybyddiaeth, creu amgylchedd cymdeithasol a chefnogol, a chael effaith gadarnhaol ar gydweithwyr o leiafrifoedd ethnig yn y gweithle. Mae croeso i holl weithwyr ac aelodau'r Cyngor ymuno.

Mae rhwydwaith Diverse yn gweithio gyda gwahanol adrannau o'r Cyngor yn gysylltiedig â gweithredu'r cynllun cydraddoldeb hiliol, ac i wella cyflogaeth a darpariaeth gwasanaeth i weithwyr a chymunedau lleiafrifol ethnig. Mae rhwydwaith Diverse hefyd yn cefnogi hyfforddiant gorfodol i'r staff ar ymwybyddiaeth o hil a rhagfarn ddjarwybod, a hefyd yn cefnogi gweithdai gwrth-hiliaeth mewn ysgolion.

Mae Diverse wedi cynnal nifer o gyfarfodydd gan gynnwys clwb llyfrau ym mis Hydref 2022 lle bu'r aelodau'n trafod *Why I'm No Longer Talking to White People About Race* gan Reni Eddo-Lodge a pharti gwyllo ym mis Ionawr 2023 ar gyfer ffilm fer y BBC *Black and Welsh*.

Mae aelodau Diverse wedi chwarae rhan sylweddol yng nghyfarfodydd Mannau Diogel a chyflawni y clod Arloesi.

Rhwydwaith Anabledd

Rydym wedi dechrau gweithio i ddechrau rhwydwaith staff anabledd. Cynhaliwyd dau gyfarfod cychwynnol, un ym mis Rhagfyr 2022 a'r ail ym mis Ionawr 2023, lle

daeth staff o bob rhan o'r Cyngor at ei gilydd i drafod beth maen nhw ei eisiau gan rwydwaith anabled. Roedd llawer o ddiddordeb ac ymdeimlad cryf o fod eisiau sylfaen i gael cefnogaeth a gwybodaeth, yn ogystal â rhoi llais i sicrhau bod staff ag anabledau yn cael eu hystyried ar bob lefel o daith y gweithiwr. Roedd llawer o staff yn barod i rannu eu straeon a'u profiadau eu hunain, a fydd yn ychwanegu gwerth gwirioneddol i'r rwydwaith. Mae camau ar y gweill i benderfynu ar enw'r grŵp a chynllunio cylch gorchwyl neu gyfansoddiad.

Ymwybyddiaeth o'r Menopos

Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd cyfran fawr a chynyddol o'i weithwyr yn gweithio drwy'r menopos a thu hwnt. Fel sefydliad, rydym wedi ymrwmo i gefnogi ein holl staff y mae'r menopos yn effeithio arnynt. Rydym wedi bod yn cyflwyno sesiynau ymwybyddiaeth menopos ac ar hyn o bryd rydym yn edrych ar ffyrdd o ddatblygu dysgu ar-lein y gall pob aelod o staff fanteisio arno. Mae rhai aelodau staff yn wynebu rhwystrau wrth gydnabod sut y gallai'r menopos effeithio arnynt a sut y gallent gynnig cymorth neu gael eu cefnogi yn y gweithle.

Cyflwynodd y tîm Iechyd Galwedigaethol ddwy sesiwn Ymwybyddiaeth o'r Menopos ar gyfer staff yn 2022-23 i helpu i gynyddu dealltwriaeth ac annog trafodaeth agored am y menopos. Rydym yn cydnabod, drwy godi ymwybyddiaeth a chynnig cefnogaeth a derbyniad, y gall y sesiynau gyfrannu at weithle mwy cynhwysol.

Canfu staff a fynychodd fod y caffi yn lle croesawgar ac roeddent yn gyfforddus i rannu profiadau. Rydym yn cynllunio digwyddiadau ar gyfer y dyfodol yn 2023 ac ar hyn o bryd rydym yn ystyried eu cynnal mewn gwahanol safleoedd cyngor fel Swyddfeydd y Dociau neu'r Alpau i gyrraedd cynifer o staff â phosibl. Rydym hefyd wedi cynnig cymorth i ysgolion wrth sefydlu sesiynau i staff mewn ysgolion.

Rydym yn gweithio'n galed fel sefydliad i fynd i'r afael â'r hyn y gallwn ei wneud i gefnogi ein staff mewn ffordd ystyrlon ynghylch y menopos. Mae ein canllawiau gweithdrefnol yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd, ac rydym yn gweithio ar gyflawni Achrediad Menopos-gyfeillgar i gydnabod yr hyn a gynigiwn mewn ymwybyddiaeth, addysg a chefnogaeth.

Gwasanaethau Awtistiaeth Integredig

Tîm aml-asiantaeth o staff awdurdod lleol ac iechyd yw'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig sy'n gwasanaethu ardal Caerdydd a Bro Morgannwg. Rydym yn rhoi diagnosis a chefnogaeth i oedolion ag awtistiaeth. Rydym yn darparu gwasanaethau ataliol a chymorth sy'n bodloni gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2010.

Rydym yn casglu gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael. Cynigir y gwasanaethau hyn gan awdurdodau lleol, darparwyr gwasanaethau allanol, a sefydliadau trydydd sector. Byddwn wedyn yn helpu cleientiaid i gyrchu'r gwasanaethau hyn ac yn darparu mwy o gymorth wedi'i dargedu os oes rhwystrau. Heb y cymorth lefel isel hwn, efallai na fyddent wedi cael gwybod am y cyfleoedd am gymorth, neu deimlo eu bod yn gallu manteisio ar y cyfleoedd hynny.

Mae'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yn darparu ymyriadau byrdymor wedi'u targedu i annog pobl i fod yn annibynnol, yn hytrach na dibynnu ar y tîm. Mae apwyntiadau ar-lein ac wyneb i wyneb. Mae cymorth yn dal i fod ar gael ar-lein drwy Hyb Cynghori Rhithiol.

Rydym hefyd yn cynnal amrywiaeth o grwpiau:

- cyfarfod hyb misol i oedolion;
- cymryd camau i fodloni anghenion pobl o grwpiau gwarchodedig lle bo'r anghenion hynny'n wahanol i anghenion pobl eraill;
- gweithdy cyfathrebu sgiliau cymdeithasol; ac
- annog pobl â nodweddion gwarchodedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn gweithgareddau eraill lle bo'u cyfranogiad yn anghyfartal o isel.

Eleni rydym wedi gweithio gyda chydweithwyr o Adnoddau Dynol, Cydraddoldeb a Chymunedau am Waith i helpu i wella arferion recriwtio ac amodau gwaith ar gyfer

staff ag anableddau ac awtistiaeth. Gwnaethom hefyd lunio erthygl ar gyfer Staffnet am brofiadau aelod o staff a gafodd ddiagnosis o awtistiaeth yn ddiweddar.

Fforwm Strategaeth 50+ y Fro

Mae'r Fforwm yn ymgyrchu dros anghenion pobl 50+ ym Mro Morgannwg. Mae ei haelodau mewn cyswllt â nifer o weithgorau lleol a chenedlaethol.

Mae'r Fforwm yn gweithio'n agos gyda'r Cyngor i sicrhau bod buddiannau a lles pobl hŷn yn cael eu hystyried. Maent hefyd yn derbyn cymorth ariannol a gweinyddol gan y Cyngor.

Cynhelir rhaglen o gyfarfodydd a digwyddiadau drwy gydol y flwyddyn ac mae'r Fforwm hefyd yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu.

Mae gan y Fforwm Bwyllgor Gweithredol ac is-grwpiau sy'n cwmpasu trafndiaeth, iechyd a gofal cymdeithasol, tai, cydraddoldeb hiliol, y celfyddydau a hamdden, a newid yn yr hinsawdd. Mae'r grŵp trafndiaeth wedi bod yn paratoi ymateb i ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru sy'n tynnu sylw at faterion cenedlaethol a Gwerth i bobl hŷn wrth gael mynediad at wasanaethau trafndiaeth. Yn yr un modd, mae'r grŵp iechyd a gofal cymdeithasol wedi bod yn canolbwyntio ar fynediad at ofal iechyd gan gynnwys meddygon teulu, gwasanaethau deintyddol, optegol, podiatreg, a chlyw. Mae Bwrdd Iechyd y Brifysgol yn adnewyddu ei strategaeth ar gyfer y pum mlynedd nesaf ac mae ein gwaith yn cyfrannu at hynny. Rydym hefyd yn cyfrannu at waith Llywodraeth Cymru ar ddarpariaeth gofal cymdeithasol, a fydd yn fater byw dros y blynyddoedd nesaf. Mae materion penodol yn y Fro yr ydym yn ymwneud â nhw hefyd, fel sefydlu "hybiau lles" a gwasanaethau mewn rhannau mwy gwledig o'r Fro.

Mae Fforwm Strategaeth 50+ y Fro yn gweithio'n agos gyda Swyddog Oed-gyfeillgar y Fro a benodwyd yn 2022. Maent wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau gwybodaeth a chymdeithasol ledled y Fro gan gynnwys Parti Nadolig yn y Swyddfeydd Dinesig a chyfarfod agored Dweud Eich Dweud yn canolbwyntio ar yr argyfwng costau byw.

Dadansoddi data

Yn ystod 2022-23, rydym wedi datblygu nifer o ffrydiau gwaith i ddarparu cyngor a hyfforddiant i wasanaethau ar ddadansoddi data. Yn dilyn rhyddhau'r data cyntaf o Gyfrifiad 2021 yn yr Hydref-Gaeaf 2022/23, lluniwyd [adroddiad](#) yn dadansoddi'r canlyniadau ar gyfer Bro Morgannwg. Ochr yn ochr â chyhoeddi'r adroddiad manwl, rydym wedi cyflwyno sesiynau briffio ar y canlyniadau i'r Cabinet, y tîm Arwain Strategol, rhwydwaith Penaethiaid Gwasanaeth, y Bwrdd Craffu, y Tîm Cyfarwyddiaeth Adnoddau Dynol a Chydweithwyr Adnoddau Corfforaethol.

Rydym hefyd wedi defnyddio canlyniadau'r Cyfrifiad i lywio'r gwaith o adnewyddu ac ail-lansio Sylfaen Dystiolaeth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae hyn yn adeiladu ar ganfyddiadau'r Aseiad Llesiant a mewnwelediad dilynol i les pobl. Mae'r Sylfaen Dystiolaeth newydd wedi'i chreu o gyfres o bedwar adroddiad unigol sydd gyda'i gilydd yn ffurfio Sylfaen Dystiolaeth y BGC. Mae'r rhain yn cynnwys yr [Adroddiad Newid Demograffig](#), yr [Adroddiad Addysg a'r Economi](#), yr [Adroddiad Iechyd a Chymunedau](#) ac [Adroddiad yr Amgylchedd a Thrafnidiaeth](#). Bydd y Sylfaen Dystiolaeth yn rhoi data a thystiolaeth gyfoes i gydweithwyr i lywio penderfyniadau ac i gefnogi datblygiad polisi.

Yn ystod 2022-23 gwnaethom sefydlu Rhwydwaith Ymarferwyr Cyfranogiad y Cyhoedd sy'n dod â chydweithwyr sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu ar draws y sefydliad at ei gilydd i rannu dysgu ac arfer gorau. Ym mis Mawrth 2023, gwnaethom gyflwyno cyflwyniad i'r rhwydwaith ar Ddata a Mewnwelediad. Lluniwyd y cyflwyniad hwn i godi ymwybyddiaeth o sut y gall cydweithwyr ddefnyddio data a mewnwelediad i gefnogi eu gwaith, i lywio sut y gellir cefnogi dadansoddi data ar draws y sefydliad, ac i godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd i rannu data a mewnwelediad ar draws y sefydliad.

Gwasanaethau Hamdden - Tîm Chwaraeon a Chwarae'r Fro

Cynhaliodd y Tîm Byw'n Iach (Datblygiad Chwaraeon) arolwg Chwaraeon Ysgol. O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolwg, mae'r tîm Pobl Ifanc Egnïol wedi datblygu partneriaethau newydd i sicrhau bod pobl ifanc anabl yn cael mwy o gyfleoedd i gael

mynediad at chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Cwblhaodd dros 4,200 o ddisgyblion rhwng 7 ac 16 oed yr Arolwg Cenedlaethol ar Chwaraeon Ysgolion i dynnu sylw at lefelau gweithgarwch corfforol, rhwystrau a heriau a wynebier, a'r hyn yr oeddent am ei wneud i fod yn fwy egniol.

Dyma rai o'r prosiectau ac effeithiau o ganlyniad i'r canfyddiadau:

- Gwnaethom ddatblygu sesiynau allgyrsiol newydd ac ychwanegol mewn ysgolion uwchradd gan effeithio ar 931 o ddisgyblion ar draws o leiaf 3055 o gyfranogwyr.
- Buom yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Ieuenctid i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran cymryd rhan trwy chwaraeon mwy 'anffurfiol' ar gyfer y rhai lleiaf egniol. Cyrhaeddodd sesiynau cymunedol newydd ac ychwanegol 468 o'r bobl ifanc lleiaf egniol.
- Gwnaethom drefnu gwyliau a sesiynau blasu gyda chlybiau lleol mewn ysgolion cynradd gan alluogi tua 4,500 o ddisgyblion i roi cynnig ar gyfleoedd newydd gyda phêl-fasged, dawns, criced, gymnasteg, crefft ymladd, tennis, rhedeg, a phêl-droed.
- Gwnaethom gyflwyno hyfforddiant Arweinwyr Chwaraeon i rai disgyblion Cyfnod Allweddol 2 i'w galluogi i hwyluso gweithgareddau amser egwyl dan arweiniad cyfoedion. O ganlyniad, mae 218 o ddisgyblion ym mlynnyddoedd 5/6 wedi eu hyfforddi. Mae ysgolion wedi gweld cynnydd mewn lefelau gweithgarwch corfforol a gwelliannau mewn ymddygiad meysydd chwarae.
- Gwnaethom ddatblygu digwyddiad dan arweiniad ieuenctid yng Nghanolfan Hamdden Penarth gan weithio gyda Legacy Leisure a'r Gwasanaeth Ieuenctid. Cofrestrodd 67 o bobl ifanc i gymryd rhan. Roedd 93% yn dymuno parhau i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r ganolfan hamdden.

- Gwnaethom ddarparu hyfforddiant i 151 o hyfforddwyr i ddatblygu mwy o weithgareddau cymunedol a helpu mwy o blant i fod yn fwy egniol.
- Rydym yn parhau i dargedu ysgolion sydd â chyfraddau uchel â Hawl i Brydau Ysgol am Ddim (cPYADd) uchel i helpu i leihau'r bwlch anghydraddoldeb. Buom yn gweithio gyda'r tîm chwarae a phartneriaid eraill i gyflwyno'r rhaglen weithgareddau Haf o Hwyl.
- Gwnaethom sefydlu'r rhaglen Llysgenhadon Ifanc. Mae Llysgenhadon Ifanc ym mlynnyddoedd 7 ac 8. Rydym yn gweithio gyda nhw i ddarparu hyfforddiant arweinyddiaeth i ddisgyblion ysgolion cynradd a gyda chynghorau ysgol, i wella cyfraddau cyfranogi. Trwy'r rhaglen Llysgenhadon Ifanc, mae o leiaf 64 o ddisgyblion wedi mynychu clwb chwaraeon allgyrsiol nad oedd wedi bod o'r blaen.
- Nododd 40% o bobl ifanc eu bod yn dymuno gwneud mwy o nofio, gydag adborth yn dweud wrthym nad oedd y sesiynau nofio am ddim presennol yn ddeniadol i'w grŵp oedran. Gwnaethom ddatblygu sesiwn nofio chwyddadwy wythnosol i bobl ifanc yn eu harddegau gyda Legacy Leisure a darparu cynllun talebau nofio gyda thair ysgol uwchradd. Gwelsom 249 yn cymryd rhan dros floc o ddeuddeg sesiwn newydd, gydag o leiaf 75 o ddisgyblion yn cael cymorth i gael mynediad i nofio i gynyddu lefelau gweithgaredd.
- Gwnaethom ddatblygu sesiynau pêl-droed wythnosol 'troi i fyny a chwarae' ar gyfer plant 6 i 8 oed, gan ganiatáu i dros 30 o blant gael mynediad at bêl-droed cymunedol am y tro cyntaf. Buom yn gweithio gyda phrosiect Pêl-droed yn y Gymuned Dinas Caerdydd i ailsefydlu pêl-droed 'Kicks', sesiwn troi i fyny a chwarae anffurfiol wythnosol i bobl ifanc 11 i 17 oed.
- Gwnaethom sefydlu gweithgaredd cyfoethogi pêl-fasged mewn ysgol uwchradd i'r ysgolion cynradd clwstwr fynychu ar sail rota. Mae 105 o ddisgyblion wedi cymryd rhan. Rydym wedi hyfforddi 12 hyfforddwr newydd i gefnogi mwy o gyfleoedd pêl-fasged.

- Rydym wedi gweithio gyda'r timau Teithio Llesol a Diogelwch Ffyrdd i greu fforwm beicio ledled y Fro gyda thri ar ddeg o aelodau. Gwnaethom ddatblygu cyfleoedd i'r rhai heb fynediad at feiciau, gan sicrhau cyllid ar gyfer 17 o feiciau mewn un ysgol uwchradd a ddefnyddir gan ddisgyblion CPYADd yn ystod rhaglen haf, a helpu i greu llwybrau beicio fel bod gan blant leoedd diogel a hygyrch i feicio.
- Gwnaethom gydweithio â chlwb pêl-rwyd lleol i ddatblygu sesiynau ar ôl ysgol gan effeithio ar dros 90 o ddisgyblion, gyda 30 o chwaraewyr newydd yn ymuno â'r clwb.
- Buom yn gweithio gyda chlwb golff lleol i ailosod adran iau a oedd wedi'i ddiddymu yn ystod Covid. Gwnaethom helpu'r clwb i weithio gydag ysgolion i gyflwyno sesiynau blasu ac rydym yn falch bod yr adran iau yn ffynnu ac yn datblygu cyfleusterau unwaith eto gan ddefnyddio Grant Bod yn Actif.

Gwnaethom ddarparu sesiynau gweithgarwch corfforol sy'n seiliedig ar deuluoedd, gan dargedu teuluoedd lle nad oedd plant eisoes yn perthyn i glwb chwaraeon lleol neu deuluoedd â lefelau gweithgaredd isel. Dywedodd 27% o'r cyfranogwyr fod ganddynt anghenion ychwanegol neu anabledau. Darparwyd sesiynau heb unrhyw gost i gyfranogwyr.

Gwnaethom hefyd ddatblygu sesiynau blasu Y Fro ar Fynd yn y gymuned gyda chlybiau lleol. Buom yn gweithio gydag ysgolion a sefydliadau lleol i sicrhau bod plant a phobl ifanc ag anghenion ychwanegol yn manteisio ar y sesiynau.

Yn dilyn atgyfeiriad drwy'r cynllun Llwybr Iechyd Anabledd, buom yn gweithio gyda chanolfan adnoddau awtistiaeth mewn ysgol uwchradd yn y Fro i ddarparu amserlen ar wahân o ddarpariaeth allgyrsiol. Mae hyn wedi galluogi pobl ifanc yn y ganolfan adnoddau i oresgyn rhai o'r rhwystrau a nodwyd wrth gael mynediad at raglen gyfoethogi'r ysgol, fel heriau sy'n gysylltiedig â swm.

Mewn ysgol uwchradd arall, gwnaethom ddefnyddio cyllid Pobl Ifanc Egnïol i sefydlu clwb saethyddiaeth i ddarparu cyfle cynhwysol gwerthfawr o fewn rhaglen allgyrsiol yr ysgol ar gyfer aelodau'r Cyfleuster Addysgu Arbenigol gan gynnwys disgyblion â nam ar eu golwg. Enwebwyd y clwb ar gyfer Gwobr Prosiect Cyfranogi'r Flwyddyn drwy Archery UK yn 2022.

Yn yr un modd, buom yn gweithio gyda chanolfan adnoddau mewn ysgol gynradd i gynyddu cyfleoedd chwaraeon ychwanegol drwy wella hyblygrwydd i ddileu rhwystrau. Buom yn gweithio gyda Swyddog Cyswllt Teulu yr ysgol a thri chlwb lleol i gyflwyno cyfres o sesiynau.

Rydym hefyd wedi parhau i hyrwyddo prosiectau y Gronfa Euraid, Tocyn Aur ac Ysgogwyr Euraid ledled y Fro. Cynhaliwyd un prosiect Golden Activator yn Llanbedr-y-Fro yng Ngorllewin y Fro. Cychwynnodd preswlydd lleol y prosiect, a ariannwyd drwy elfen y Gronfa Aur o'r Cynllun Hamdden Actif 60+. Cyflwynwyd sesiynau Bowls Mat Byr yn neuadd y pentref yn Llanbedr-y-fro gyda chyfartaledd o 20 o bobl yn mynychu bob wythnos. Cefnogwyd y grŵp gan yr arweinydd 60+ o fewn y Tîm Byw'n Iach i gael gafael ar y cyllid. Mae'r prosiect wedi denu pobl hŷn i weithgarwch corfforol ac mae hefyd wedi helpu gydag unigedd cymdeithasol, gyda mwy o bobl yn ymgysylltu â'u cymuned leol.

Haf o Hwyl

Roedd Haf o Hwyl yn rhaglen o weithgareddau chwarae, chwaraeon a diwylliannol am ddim a gydlynir gan y Tîm Byw'n Iach a'u cyflwyno rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2022 wedi'u hanelu at blant a phobl ifanc, a'u teuluoedd. Rhoddodd Llywodraeth Cymru gyllid ar gyfer y rhaglen i gefnogi lles meddyliol, cymdeithasol a chorfforol plant a phobl ifanc yng nghyd-destun cyfyngiadau Covid. Roedd y rhaglen yn agored i bob plentyn a pherson ifanc ledled y Fro, ond roedd awydd hefyd i ennyn diddordeb y rhai yr effeithir arnynt fwyaf gan yr argyfwng costau byw a gan Covid. O'r herwydd, darparwyd rhywfaint o ddarpariaeth wedi'i thargedu.

Gweithiodd y Tîm Byw'n Iach gyda 130 o sefydliadau partner i gyflwyno dros 147 o wahanol weithgareddau ar draws 946 o sesiynau ar wahân mewn 23 o leoliadau

gwahanol. Roedd dros 19,500 o bobl yn bresennol, gyda 433 ohonynt yn blant ag anabledau neu afiechydon, ac roedd dros 475 ohonynt yn blant ag anghenion ychwanegol. Fodd bynnag, ni chofnododd pob sefydliad y data hwn. Roedd y lefelau cyfranogiad uchaf ymhlith plant 5 - 10 oed, sef 48% ac roedd y cyfranogiad isaf ymhlith pobl ifanc 16 - 24 oed, sef 7%. Mae nifer isel y bobl ifanc a fanteisiodd ar weithgareddau ar eu cyfer yn faes y bydd angen ei ystyried ymhellach os caiff rhaglenni tebyg eu rhedeg yn y dyfodol. Efallai bod hyrwyddo gweithgareddau wedi cyfrannu at y nifer isel o'r grŵp oedran hwn sy'n manteisio arnynt.

Ystyriwyd Haf o Hwyl yn llwyddiant ysgubol, gydag adborth cadarnhaol gan 99% o'r cyfranogwyr am y gweithgareddau a ddarparwyd a'r staff a'u darparodd. Roedd 79% o'r cyfranogwyr yn cytuno bod sesiynau'n 'wych'.

Hyb Cyn-filwyr LHDT+

Lansiwyd Hyb Cyn-filwyr LHDT+ yn Amgueddfa Firing Line Castell Caerdydd ym mis Hydref 2022. Pwrpas yr hyb yw caniatáu lle i gyn-filwyr o'r gymuned LHDT+ siarad a defnyddio'r grŵp fel cam tuag at ymuno ag un o'u Grwpiau Cyn-filwyr lleol. Wrth siarad â chyn-filwyr, roedd rhai'n teimlo nad oedden nhw'n barod i gerdded i mewn i grŵp cyn-filwr a dywedodd rhai nad oedden nhw'n teimlo fel cyn-filwr. Mae'n bleser gennym gael cymorth Fighting with Pride, sy'n cefnogi iechyd a lles cyn-filwyr LHDT+, personél y lluoedd arfog a'u teuluoedd.

Llyfr Diwylliant

Mae amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant wedi dod yn brif flaenoriaethau i gyflogwyr. Mae meithrin diwylliant o gynhwysiant yn angenrheidiol bellach. Yng Nghyngor Bro Morgannwg, rydym yn deall sut mae amrywiaeth, cydraddoldeb a strategaethau cynhwysiant yn cael effaith sylweddol ac uniongyrchol ar ddenu ac ymgysylltiad â gweithwyr a'u cadw.

Mae ein llyfr diwylliant yn ceisio cefnogi'r strategaethau hyn drwy straeon sy'n tynnu sylw at arfer gorau a'n gwerthoedd sefydliadol yn fewnol ac yn allanol. Mae'r llyfr diwylliant ar gyfer staff ac yn cael ei ddefnyddio fel offeryn recriwtio.

Byddwn yn diweddarau'r llyfr yn 2023 i gynnwys y rhwydwaith anabledd newydd ac adnewyddu'r wybodaeth am y rhwydweithiau staff eraill.

Gan fod y Llyfr Diwylliant yn ddogfen fyw, rydym yn gwneud diweddariadau parhaus. Mae'r rhain yn adlewyrchu newidiadau sy'n digwydd o fewn y sefydliad ac sy'n sail i'n diwylliant.

Mae ein rhaglen sefydlu yn atgyfnerthu ein gwerthoedd a'n diwylliant sefydliadol ar gyfer dechreuwyr newydd o ddechrau eu taith gyflogaeth gyda ni. Yn ystod y sesiwn mae arweinydd y cyngor yn ymuno â ni ac yn trafod y gwerth y mae cyngor â chydbwysedd rhwng y rhywiau yn ei gynnig i'r sefydliad. Rydym yn hysbysebu'r rhwydweithiau niferus o fewn y sefydliad ac yn annog dechreuwyr newydd i gymryd rhan gymaint â phosibl.

Gwerthuso Swyddi

Mae gennym gynllun gwerthuso swyddi ar waith. Mae'r cynllun hwn ar gyfer staff a delir dan y cytundeb cyfunol Statws Sengl. Mae'n sicrhau bod ffordd systematig o benderfynu ar gyflog a gradd ar gyfer swydd. Mae hyn yn arwain at dâl cyfartal o werth cyfartal. Mae canlyniadau gwerthusiad swydd wedi'u cysylltu â'n system gyflog a graddio. Sefydlwyd system gyflog a graddio ffurfiol ym mis Mawrth 2012 ar ôl cwblhau proses gwerthuso swyddi helaeth.

Mae wedi ein helpu i dalu pobl yn deg ac mewn ffordd gyson.

Mae ffactorau eraill sy'n effeithio ar dâl pobl megis y math o swyddi maen nhw'n dewis eu gwneud. Mae dynion a merched yn aml yn dewis gwneud swyddi y mae dynion a merched wedi eu gwneud yn draddodiadol. Gelwir hyn yn arwahanu galwedigaethol. Mae'n aml yn ffactor o ran y bwlch cyflog rhwng dynion a menywod – sef y bwlch cyflog rhwng y rhywiau.

Fel rhan o'n Cynllun Gweithlu, rydym yn parhau i edrych am ffyrdd o leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Ers 2012, rydym yn asesu swyddi newydd a newidiol trwy ein system gwerthuso swyddi. Fel rhan o hyn, rydym yn ystyried nifer o ffactorau, gan gynnwys y wybodaeth, y sgiliau a'r profiad sydd angen ar bobl i wneud y swydd. Mae llawer o newidiadau fel hyn wrth i ni ad-drefnu ein hadrannau a meddwl am y ffordd orau o wneud ein gwaith. Mae defnyddio'r dull hwn yn cadw'r system gyflog a graddio'n deg a chyson.

Cynllun y Gweithlu

Mae gennym gynllun gweithlu. Mae'r cynllun hwn yn sicrhau bod gennym:

- y bobl gywir;
- gyda'r sgiliau cywir;
- yn y lle cywir;
- ar yr adeg gywir.

Mae hyn yn ein helpu i barhau i ddarparu ein gwasanaethau ar adeg pan mae heriau ariannol mawr a galw cynyddol am ein gwasanaethau. Rydym yn bwriadu sicrhau bod ein gweithlu yn debyg i wneuthuriad y gymuned leol o ran y grwpiau gwarchoddedig. Rydym wrthi'n adolygu cynllun gweithlu'r Cyngor.

Rydym wedi rhoi mewn lle ffordd o gofnodi nodweddion gwarchoddedig ein staff. Mae hyn yn golygu ein bod yn gallu cymharu ein hystadegau gydag ystadegau lleol a chenedlaethol i weld pa gynnydd yr ydym yn ei wneud. Yna gallwn gynllunio sut i wneud gwelliannau.

Fel rhan o'r cynllun gweithlu, mae gennym strategaeth i edrych ar gynyddu amrywiaeth ein gweithwyr ar draws pob grŵp gwarchoddedig. Fel rhan o'r strategaeth, rydym yn adeiladu perthnasoedd ac yn datblygu chyfleoedd gyda sefydliadau addysgol lleol, gan gynnwys Prifysgol Caerdydd, Prifysgol De Cymru a Choleg Caerdydd a'r Fro. Rydym yn ymdrechu i gynnig yr ystod lawn o brentisiaethau sydd ar gael yng Nghymru.

Gwybodaeth benodol ynghylch cyflogaeth, gan gynnwys gwybodaeth ar hyfforddiant a chyflog

Rydym wedi bod yn casglu data cyflogaeth am nifer o flynyddoedd. Rydym wedi casglu gwybodaeth ar y nodweddion gwarchoddedig canlynol:

- rhyw;
- hil;
- anabledd;
- hoedran.
- cyfeiriadedd rhywiol;
- ailbennu rhywedd;
- hunaniaeth rywiol;
- hunaniaeth genedlaethol;
- crefydd neu gred; a

- statws priodasol.

I'n helpu ni, defnyddiom ganllawiau gan Lywodraeth Cymru. Enw'r canllaw yw 'Casglu data am gydraddoldebau - Safonau sydd wedi'u cysoni ac arferion gorau'.

Newidiom y ffurflen a ddefnyddiwn i gasglu gwybodaeth am bobl pan fônt yn ymgeisio am swyddi.

Fe wnaethon ni lunio arolwg staff, Fe wnaethom ddefnyddio hwn i ofyn i staff am eu nodweddion gwarchoddedig.

Fe wnaethon ni wella'r ffordd yr ydym yn cofnodi'r wybodaeth hon. Mae gwneud hyn yn helpu i wella'r hyn yr ydym yn ei wybod am y grwpiau gwarchoddedig o fewn ein gweithlu.

Rydym wedi edrych ar y wybodaeth a gasglwyd gennym. Gallwch chi weld yr hyn rydyn ni wedi'i ganfod yn [Atodiad 5](#) yr adroddiad hwn. Ceir crynodeb o'r penawdau yn ôl nodweddion gwarchoddedig isod. Mae'r ffigurau canlynol yn cyfeirio at staff corfforaethol ac nid ydynt yn cynnwys staff a gyflogir mewn ysgolion.

Oedran

- Rydym yn cyflogi mwy o bobl ond mae nifer y rhai 25 - 29 oed, 45 - 49 oed, 50 – 54 oed, a 55 - 59 oed wedi gostwng.
- Ystod oedran y rhan fwyaf o'r gweithwyr yw 55-59 oed.
- Cafwyd y ganran fwyaf o geisiadau gan bobl yn yr ystod oedran 25-29 oed (15.7%). Dyma'r newid o 20 – 24 oed y llynedd (15.6%)
- Deuai'r gyfran fwyaf o bobl a dderbyniodd hyfforddiant o'r grŵp oedran 55-59 – 330 (5.7%).

- Roedd y rhan fwyaf o'r bobl a adawodd rhwng 55 a 59 oed, 12.4% bob bobl a awawodd.
- Cynyddodd yr holl gyflogau cyfartalog.
- Pobl rhwng 55 a 59 oed oedd â'r cyflog cyfartalog uchaf, £31,345.

Anabledd

- Nid oedd gan 77.2% o'n staff anabledd. Dywedodd 2.8% fod ganddynt anabledd a oedd yn cyfyngu rhywfaint arnynt.
- Roedd canran yr ymgeiswyr a ddywedodd nad oedd ganddynt anabledd yn 85.3%, cynnydd ar y 78.3% y llynedd.
- Roedd gan 3.2% o'r bobl a fynychodd hyfforddiant anabledd a oedd yn eu cyfyngu i ryw raddau. Nid oedd gan 79.1% o'r bobl a fynychodd hyfforddiant unrhyw anabledd.
- Cynyddodd nifer yr ymadawyr a ddywedodd nad oedd ganddynt anabledd o 234 i 260 o gymharu â'r flwyddyn gynt, sef cynnydd canrannol o 78.5% i 71.6%.
- Cynyddodd y cyflog cyfartalog ar gyfer pob opsiwn anabledd.

Statws Priodasol

- Mae nifer y rhai sy'n briod ydy'r categori uchaf o hyd o blith statws priodasol staff cyflogedig ar 43.0%, gyda phobl sengl yn ail ar 35.6%.
- Roedd y rhan fwyaf o geisiadau'n geisiadau gan bobl sengl, sef 43.7%.

- Mae nifer y ceisiadau gan bobl briod wedi cynyddu o 779 i 1265, cynnydd o 23.7% i 36.4%.
- Mae nifer yr ymadawyr sydd wedi ysgaru ac sy'n briod wedi cynyddu ond roedd mwyafrif yr ymadawyr yn sengl (39.7%).
- Cynyddodd cyflog cyfartalog ar gyfer pob grŵp ac eithrio'r rhai a ddywedodd eu bod mewn partneriaeth sifil.

Mamolaeth, Tadolaeth, a Mabwysiadu

- Cafodd 58 o weithwyr corfforaethol dâl ac absenoldeb mamolaeth, tadolaeth neu fabwysiadu yn ystod 2022/23.

Hunaniaeth Genedlaethol

- Dywedodd y rhan fwyaf o weithwyr eu bod yn Brydeinig (1087) neu'n Gymreig (1056).
- Mae nifer yr ymgeiswyr a ddywedodd eu bod yn Gymreig yn parhau i fod yr hunaniaeth uchaf ymhlith ymgeiswyr, sef 51.3%.
- Yr hunaniaeth genedlaethol uchaf ar gyfer ymadawyr yw Cymreig, sef 38.3% sydd wedi llai o 42.6% y llynedd.
- Gwelwyd cynnydd yng nghyflog cyfartalog pob grŵp arall ar wahân i 'gwell gennyf beidio dweud'.

Hil ac Ethnigrwydd

- Roedd mwyafrif y gweithwyr yn Wyn - dros 83%. Y grŵp uchaf oedd Gwyn a Phrydeinig, sef 66.7%.

- Gwyn a Phrydeinig yw'r categori uchaf o hyd ar gyfer ymgeiswyr, sef 70.2%. Roedd 77.6% o'r bobl a ymgeisiodd am swyddi yn Wyn, sy'n llai na'r flwyddyn flaenorol (79%).
- Mae nifer yr ymgeiswyr sy'n dewis peidio â chofnodi eu hil neu ethnigrwydd wedi gostwng i sero.
- Roedd dros 78% o'r ymadawyr yn wyn. Bu cynnydd yng nghanran yr ymadawyr sy'n Wyn ac yn Brydeinig, sy'n dal i fod y grŵp ethnig mwyaf ar gyfer ymadawyr, sef 58.7%.
- Ar gyfer pobl sydd â chefnidir ethnig Gwyn, cynyddodd y cyflog i'r rhai mewn wyth o'r naw grŵp ers y flwyddyn flaenorol.

Crefydd neu Gred

- Roedd y rhan fwyaf o'r staff naill ai heb grefydd (37.2%) yn Gristnogol (28.5%) neu heb gofnodi eu crefydd neu gred (28.6%).
- Dywedodd dros hanner yr holl ymgeiswyr nad oedd ganddynt grefydd (51.0%).
- Dywedodd y rhan fwyaf o weithwyr sy'n derbyn hyfforddiant nad oedd ganddynt unrhyw grefydd (38.8%).
- Cofnododd mwy o ymadawyr nad oedd ganddynt grefydd, 38.6% o gymharu â 40.6% y llynedd.

Rhyw

- Roedd ein gweithlu corfforaethol yn cynnwys 66.3% o fenywod a 33.7% o ddynion. Mae nifer y gweithwyr sy'n fenywod wedi llai o 1793 i 1786 a nifer y gweithwyr sy'n ddynion hefyd wedi cynyddu o 873 i 908.

- Roedd y rhan fwyaf o weithwyr, yn ddynion a menywod, yn parhau i weithio mewn swyddi amser llawn parhaol.
- Roedd tua 66% o'r bobl a fynychodd hyfforddiant yn fenywod ac roedd tua 33% yn ddynion. Mae'r canrannau hyn yn adlewyrchu'r un gyfran o ddynion a menywod wedi'u cyflogi.
- Roedd mwy o bobl a ymgeisiodd am swyddi yn fenywod (60.8%). Gellir cymharu hyn â 32.9% a oedd yn ddynion.
- Gadawodd mwy o fenywod eu swyddi na dynion. Mae hyn yn ddisgwyliedig am ein bod yn cyflogi mwy o fenywod na dynion.
- Roedd gan 49.3% o fenywod a 39.1% o ddynion swyddi yn talu rhwng £15,000 a £19,999. Mae 45.8% o'r holl swyddi yn cael eu talu rhwng £15,000 a £19,999 sy'n gynydd ar 27.3%, oherwydd y codiadau cyflog a ddyfarnwyd eleni.
- Cyflog cyfartalog dynion yw'r cyflog cyfartalog uchaf o hyd. Cynyddodd cyflog cyfartalog dynion a menywod, ond yn fwy ar gyfer dynion.

Cyfeiriadedd Rhywiol

- Dywedodd y rhan fwyaf o'n staff eu bod yn heterorywiol (66.4%). Mae canran y gweithlu a ddywedodd eu bod yn hoyw, lesbiaidd neu ddeurywiol wedi cynyddu rhywfaint o 2.5% i 2.7%. Cynyddodd ein gweithlu 1.05%.
- Rydym yn monitro llwyddiant pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol o'r cam ymgeisio hyd at benodi'n llwyddiannus. Ar gyfer 2022/23, bu benodiadau llwyddiannus (25%) o gymharu a 14.6% yn y flwyddyn gynt.
- Mae canran yr ymgeiswyr a ddywedodd eu bod yn heterorywiol yn dal i fod gyda'r uchaf (82.8%)

- Roedd dros 62% o'r rhai a ymadawodd yn heterorywiol.
- Cyflogwyd 39% o weithwyr LHDTTC+ yn y band cyflog £20,000-£29,999.

Y Gymraeg

- Mae canran ein staff sy'n dweud nad oes ganddynt unrhyw sgiliau iaith Gymraeg wedi cynyddu o 15.3% i 34.5% eleni. Mae'r canrannau hyn yn seiliedig ar gyfartaledd yr opsiwn 'dim' ar gyfer deall, siarad, darllen ac ysgrifennu.
- Mae canran y staff sydd â sgiliau Cymraeg wedi'u sgorio rhwng Sylfaenol a Rhugl wedi gostwng ond mae'n parhau rhwng un rhan o bump a dwy ran o bump: deall 22.6%; siarad 22.9%; darllen 16.9%; ysgrifennu 12.8%.
- Roedd sgiliau Cymraeg ymgeiswyr fel a ganlyn: yn deall 44.6%; yn siarad 39.4%; yn darllen 36.0%; ac yn ysgrifennu 30.2%.
- Rydym yn dal i dderbyn y rhan fwyaf o geisiadau gan bobl sy'n dweud nad oes ganddynt unrhyw sgiliau iaith Gymraeg.

Byddwn yn parhau â'r gwaith hwn. Rydym am allu adrodd ar yr holl nodweddion gwarchoddedig.

Nid oes gennym yr holl wybodaeth y mae angen inni ei chasglu i fodloni'r dyletswyddau cyffredinol a phenodol. Dyma'r rhesymau am hynny:

- bod angen diweddarau systemau adrodd ymhellach;
- bod rhai staff yn dewis peidio datgelu gwybodaeth bersonol;
- bod angen casglu data ychwanegol a chyfredol ar nodweddion gwarchoddedig;

- na chafwyd rhyw lawer o arweiniad i egluro'r hyn yr oedd yn rhaid inni adrodd arno.

Rydym wedi gwella ein data ar y Gymraeg. Rydym yn bwriadu cynnal arolwg o staff yn 2023/24 i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am sgiliau'r Gymraeg.

Hyd yn oed wrth wneud gwelliannau, mae'n bosibl na fyddwn yn cael yr wybodaeth sydd ei hangen arnom. Tybiwn fod rhai pobl yn dewis peidio rhannu rhai o'u nodweddion gwarchoddedig â ni. Rydym yn annog pobl i wneud hynny drwy egluro:

- pam ein bod yn gofyn am yr wybodaeth hon; a
- sut y gallwn ei defnyddio i fodloni eu hanghenion yn well.

Daw'r wybodaeth ar gyfer yr adroddiad hwn o systemau yn yr Adran Adnoddau Dynol. Mae hyn yn golygu bod yr wybodaeth mor gywir a chyflawn ag sy'n bosibl. Gwyddom y bydd angen inni barhau i weithio ar yr wybodaeth ar gyfer adroddiadau yn y dyfodol. Bydd hyn yn ein helpu i fodloni gofynion y ddyletswydd gyffredinol.

Adolygiad o Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2020 - 2024

Mae'r amcanion cydraddoldeb strategol presennol ar gyfer y cyfnod 2020 i 2024. Mae gofyniad statudol yng Nghymru i adolygu Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol o leiaf unwaith bob pedair blynedd felly bydd angen i ni fod â chynllun wedi'i adolygu ar waith yn 2024. Fel rhan o'r adolygiad hwn, byddwn yn adrodd ar sut rydym wedi cyflawni ein hamcanion presennol ac yn penderfynu a oes angen i ni eu newid neu eu datblygu ymhellach.

Rydym wedi cysylltu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol presennol â'r amcanion lles corfforaethol yn ein Cynllun Corfforaethol ac wedi defnyddio ymchwil 'A yw Cymru'n Decach 2018' y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol? i lunio ein hamcanion cydraddoldeb strategol. Rydym wedi trosi ein dyletswyddau cydraddoldeb yn gamau gweithredu lleol drwy ddangos sut y byddwn yn gweithio gyda'n gilydd ar gyfer dyfodol tecach.

Amcanion lles corfforaethol presennol	Sut maen ein hamcanion cydraddoldeb strategol yn cysylltu
Gweithio gyda'n cymunedau a throstynt.	Nodi'r cymunedau mwyaf difreintiedig fel y dangosir yn 'A yw Cymru'n Decach 2018' a thrwy ymgysylltu lleol.
Cefnogi dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy.	Cefnogi dysgu a chyflogaeth i bobl â nodweddion gwarchoddedig, gan ganolbwyntio ar y rhai mwyaf difreintiedig.
Cynorthwyo pobl yn eu cartrefi a'u cymunedau.	Cefnogi diogelwch a lles pobl gartref ac yn eu cymuned, gan roi sylw penodol i bobl â nodweddion gwarchoddedig a nodwyd yn rhai difreintiedig yn 'A yw Cymru'n Decach 2018' a'n gwybodaeth a data lleol ein hunain.

Parchu, gwella a mwynhau ein hamgylchedd.	Sicrhau y gall ystod amrywiol o bobl fwynhau ein hamgylchedd lleol, gan gynnwys pobl anabl.
---	---

Ni fyddwn yn adolygu ein Cynllun Corfforaethol a'i amcanion tan 2025. Mae'n debygol na fydd Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn cyhoeddi ei ymchwil ynghylch a yw Cymru'n decach yn ddigon buan i lywio ein hamcanion cydraddoldeb yn iawn. Mae hyn yn golygu efallai y byddwn yn dymuno adolygu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024 – 2028 eto yn 2025 i roi sicrwydd i'n hunain ei fod yn cydfynd â'r ymchwil diweddaraf a Chynllun Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2025 – 2030.

I gael mwy o wybodaeth

Ewch i'n gwefan

www.valeofglamorgan.gov.uk/cy

Newyddion a Diweddariadau – yn syth i'ch mewnlwch

Gallwch danysgrifio i Cyswllt UnFro a chael y newyddion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ddiwyddiadau ac ati, gan gynnwys negeseuon atgoffa gwastraff ac ailgylchu wythnosol. Cofrestrwch drwy wefan Cyngor Bro Morgannwg:

Cyfryngau Cymdeithasol

Cael y newyddion, digwyddiadau a gwybodaeth ddiweddaraf gan Gyngor Bro Morgannwg.

Dilynwch @VOGCouncil ar Twitter neu hoffwch Cyngor Bro Morgannwg ar Facebook.

Os oes gennych ymholiad am wasanaethau'r Cyngor, cysylltwch â ni

- Ebost c1v@valeofglamorgan.gov.uk
- Neu ffoniwch 01446 700111